



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

76/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

10/12/2020

Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg

Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg – canfyddiadau arolwg

Lisa Walters, Catrin Redknap, Mirain Rhys, Sali Wyn Islwyn,
Martin Parry, Patience Jones, Iwan Davies

Adroddiad Ymchwil: L. Walters, C. Redknap, M. Rhys, S. Islwyn, M. Parry, P. Jones, I. Davies (2020). *Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg*: Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 76/2020.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lisa Walters

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 256682

E-bost: DatalaithGymraeg@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o'r siartiau	2
1. Cyflwyniad	3
2. Methodoleg	4
3. Y grwpiau cymunedol Cymraeg cyn y cyfnod clo	9
4. Y cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi hynny	23
5. Profiadau'r grwpiau wnaeth barhau i weithredu	30
6. Profiadau'r grwpiau nad ydynt wedi gweithredu	37
7. Barn am ddyfodol y grwpiau	42
8. Y grwpiau newydd	53
9. Casgliadau	54
Atodiad A: Holiadur yr arolwg o effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg	58

Rhestr o'r siartiau

Siart 3.1: Nifer y grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg	9
Siart 3.2: Ble mae'r grwpiau cymunedol Cymraeg wedi'u lleoli	11
Siart 3.3: Canran o bob math o grŵp sydd yn cael cymorth o ryw fath gan y Mentrau Iaith	12
Siart 3.4: Canran y grwpiau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr, yn ôl y math o grŵp	14
Siart 3.5: Niferoedd sy'n rhan o'r grwpiau yn ôl math o grŵp	15
Siart 3.6: Amllder cwrdd yn ôl math o grŵp	16
Siart 3.7: Canran y grwpiau sy'n cynyddu/gostwng o ran niferoedd yn mynychu	17
Siart 3.8: Iaith a ddefnyddir gan y grwpiau fel arfer, yn ôl math o grŵp	19
Siart 3.9: Prif weithgareddau oedd yn cael eu cynnal gan y grwpiau cymunedol ^(a)	20
Siart 3.10: Pwy oedd yn dod i bob gweithgaredd, yn ôl oedran	21
Siart 4.1: Sut y cynhaliwyd y gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo	24
Siart 4.2: Sut mae'r grwpiau wedi gweithredu	26
Siart 4.3: Sut mae'r grwpiau wedi gweithredu, yn ôl math o grŵp	27
Siart 5.1: Pa mor effeithiol oedd gweithgareddau'r grŵp yn ystod y cyfnod hwn	31
Siart 5.2: Pa mor aml oedd y grwpiau yn 'cwrdd' ers dechrau cyfnod clo.	34
Siart 5.3: Faint oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp	34
Siart 5.4: Ydy iaith y grŵp wedi newid ers dechrau cyfnod clo	35
Siart 5.5: Disgrifiad o'r rhai wnaeth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp	35
Siart 6.1: Rhesymau dros beidio â gweithredu wedi i'r cyfnod clo ddechrau	37
Siart 6.2: Rhesymau 'digidol' dros beidio â gweithredu wedi i'r cyfnod clo ddechrau	38
Siart 6.3: Canran y grwpiau a ddywedodd mai eu rheswm dros beidio â gweithredu oedd bod eu haelodau yn teimlo'n anniogel neu'n ofni, yn ôl math o grŵp	40
Siart 7.1: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn	42
Siart 7.2: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp	43
Siart 7.3: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp	45
Siart 7.4: Sut y bydd y grŵp yn gweithredu pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp	47
Siart 7.5: A oedd y grwpiau wedi dysgu gwersi, yn ôl math o grŵp	51

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn un o dair thema strategol [Cymraeg 2050](#) (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg). Mae hyn yn cynnwys cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau ac asiantaethau er mwyn gwireddu'r amcan hwn. Yn ogystal â'r sefydliadau a'r cymdeithasau sydd yn gweithio mewn partneriaeth ffurfiol gyda'r Llywodraeth, mae grwpiau, cymdeithasau a chlybiau cymunedol ar draws Cymru yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl gymdeithasu, gwirfoddoli a dilyn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 1.2 Ers mis Mawrth 2020, mae pandemig y coronafeirws wedi trawsnewid ein ffordd o fyw ac wedi effeithio ar sawl agwedd ar fywyd bob dydd yng Nghymru. Yn sgil y pandemig, sefydlodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (teitl y Gweinidog ar y pryd) dri is-grŵp i ganolbwyntio ar effaith Covid-19 ar elfennau gwahanol o [Cymraeg 2050](#). Nod un o'r is-grwpiau oedd deall ei effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. I'r perwyl hwnnw, comisiynodd yr is-grŵp hwn arolwg o'r grwpiau cymunedol hynny sy'n cynnig cyfleoedd i bobl gymdeithasu yn Gymraeg, er mwyn deall effaith y pandemig arnynt.
- 1.3 Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein, a chafodd ei gwblhau gan bob math o sefydliadau, pwyllgorau, papurau, clybiau, aelwydydd, corau a grwpiau cymunedol eraill a oedd yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut yr oedd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ddiwedd mis Mawrth 2020 a'r cyfyngiadau dilynol wedi effeithio arnynt; i ba raddau y gwnaethant addasu eu gweithgareddau a sut, a beth oedd eu bwriadau ar gyfer y dyfodol.
- 1.4 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno canfyddiadau'r arolwg.
- 1.5 Y bwriad yw i ganfyddiadau'r arolwg ddarparu sylfaen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid, ar gyfer archwilio ymhellach beth sydd angen ei wneud i ddiogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y dyfodol.

2. Methodoleg

Dylunio'r arolwg

- 2.1 Cafodd meysydd yr arolwg eu cytuno gydag aelodau'r Is-grŵp Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg, cyn i'r cwestiynau gael eu drafftio gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Er mwyn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl, penderfynwyd y byddai'r holiadur yn cynnwys nifer o gyfleoedd i ymatebwyr gynnig gwybodaeth ar ffurf testun rhydd yn ogystal â'r wybodaeth feintiol a fyddai'n cael ei chasglu drwy'r blychau ticio ateb a ddarparwyd.
- 2.2 Cafwyd cyfnod pellach o ymgynghori ag aelodau'r Is-grŵp, a hefyd â'r Mentrau Iaith a swyddogion Comisiynydd y Gymraeg cyn i'r holiadur gael ei roi ar ei wedd derfynol. Mae cwestiynau'r holiadur i'w gweld yn [Atodiad A](#).
- 2.3 Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig ei hun, ac er mwyn casglu'r canfyddiadau cyn gynted â phosibl, cynlluniwyd yr arolwg i'w gynnal ar-lein. Defnyddiwyd y feddalwedd dylunio holiaduron ac arolygon ar-lein [SmartSurvey](#).
- 2.4 Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl dewis yr ymatebydd.
- 2.5 Cyn cynnal yr arolwg, cynhaliwyd peilot gyda thri grŵp cymunedol a oedd yn gysylltiedig ag un Fenter Iaith, ac addaswyd y cwestiynau ar ôl cael sylwadau ganddynt.

Gweinyddu'r arolwg

- 2.6 Fel arfer, wrth gynnal arolygon o'r boblogaeth, cartrefi neu fusnesau mae gennym rywfaifaint o wybodaeth am y boblogaeth gyfan o ymatebwyr posibl, gan fod gennym wybodaeth swyddogol amdanynt. Fodd bynnag, nid oedd gennym restr swyddogol o'r holl grwpiau cymunedol Cymraeg sy'n bodoli, i'w defnyddio fel ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg hwn. Oherwydd hynny cawsom gymorth y Mentrau Iaith i gyrraedd gymaint o'r grwpiau cymunedol Cymraeg hyn â phosibl.
- 2.7 Sefydliadau cymunedol yw'r Mentrau Iaith, sy'n gweithio i hybu'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol. Mae 22 Menter Iaith ar draws Cymru, ac mae'r rhan fwyaf (ond nid pob un) yn gweithredu mewn ardal sydd yn cyfateb i ardal awdurdod lleol. Oherwydd bod gan y Mentrau ddealltwriaeth dda o'r grwpiau cymunedol sy'n gweithredu yn Gymraeg yn eu hardaloedd, gofynnwyd iddynt lunio rhestr o'r holl grwpiau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt yn eu hardaloedd, a dosbarthu'r arolwg ar-lein iddynt.

- 2.8 Mae tirwedd y Gymraeg yn wahanol ledled Cymru – o ran niferoedd a chanrannau siaradwyr, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a sut mae'r cyfleoedd hyn naill ai yn cael eu cynllunio neu yn codi mewn ffordd fwy organig yn y gymuned. Oherwydd hynny, nid oes modd bod yn sicr fod y grwpiau sy'n hysbys i'r Mentrau yn debyg ar draws pob ardal. Er enghraifft, yng Ngwynedd, lle mae cyfran uchel iawn o bobl yn siarad Cymraeg, mae grwpiau cymunedol yn gweithredu yn Gymraeg yn naturiol heb fod y Fenter Iaith yn ymwneud â nhw. Fodd bynnag, ar gyfer ardaloedd lle nad yw cyfran y siaradwyr Cymraeg mor uchel, a lle mae llai o grwpiau cymunedol Cymraeg, bydd gan y grwpiau hyn fwy o gysylltiad â'r Fenter Iaith. Ffurfiwyd rhai grwpiau newydd hefyd yn ystod y pandemig neu yn y misoedd a oedd yn arwain ato, nad oeddent efallai wedi bod yn hysbys i'r Mentrau adeg yr arolwg hwn.
- 2.9 Nid ydym yn gwybod felly faint yn union o grwpiau cymunedol sy'n gweithredu yn Gymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Mentrau Iaith wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am 2,806 ohonynt. Gallwn nodi, felly, bod o leiaf cymaint â hynny ohonynt yn bodoli. Drwy ddefnyddio rhai ffynonellau eraill o wybodaeth sydd gennym ni am rai mathau o grwpiau cymunedol (e.e. data gweinyddol sydd yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru), rydym yn tybio bod y gwir nifer o grwpiau cymunedol o leiaf ychydig o gannoedd yn uwch eto na'r ffigur hwn.
- 2.10 Gan fod yr arolwg wedi'i weinyddu ar-lein, roeddem yn ymwybodol iawn y gallai fod tuedd yn y mathau o grwpiau cymunedol a fyddai'n gallu ymateb drwy'r dull hwn. Roeddem yn ymwybodol y gallai grwpiau heb y sgiliau digidol angenrheidiol gael eu heithrio o'r arolwg, ac y gallai'r rhain fod yr union grwpiau cymunedol a fyddai hefyd wedi ei chael yn anodd gweithredu yn ystod y pandemig. Gofynnwyd i'r Mentrau Iaith felly gysylltu â'r grwpiau cymunedol nad oeddent wedi ymateb, a chynnig eu cynorthwyo i gwblhau'r arolwg dros y ffôn.

Cyfngiadau Covid-19 adeg yr arolwg

- 2.11 Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 14 Medi a 9 Hydref. Dros yr haf roedd cyfngiadau Covid-19 wedi eu llacio'n raddol. Fodd bynnag, yn dilyn cynnydd sydyn yn nifer yr achosion o'r feirws mewn rhai ardaloedd ar ddechrau mis Medi, dechreuwyd gosod cyfngiadau lleol. Caerffili oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fynd i mewn i gyfnod clo lleol o 8 Medi, ac yna Rhondda Cynon Taf ar 17 Medi. Yn ystod cyfnod yr arolwg hwn gosodwyd cyfngiadau lleol ar 15 ardal arall yng Nghymru.

2.12 Ar gyfer yr ardaloedd â chyfyngiadau lleol:

- Nid oedd pobl yn cael mynd i mewn i'w hardaloedd lleol na'u gadael heb esgus rhesymol, fel teithio i'r gwaith neu ar gyfer addysg.
- Gallai hyd at 30 o bobl gyfarfod yn yr awyr agored, ond gan gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr.
- Dim ond yn yr awyr agored yr oedd hi'n bosibl i bobl gwrdd â phobl nad oeddent yn byw gyda nhw.
- Nid oeddent yn cael ffurfio aelwyd estynedig, na bod yn rhan o un.

2.13 Roedd y cyfyngiadau a oedd yn bodoli mewn mannau eraill yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn fel a ganlyn:

- Gallai hyd at bedair aelwyd ffurfio un 'aelwyd estynedig'.
- Dim ond hyd at chwe pherson o'r aelwyd estynedig oedd yn cael cwrdd dan do ar unrhyw adeg (gan gynnwys mewn tafarndai a bwytai). Nid oedd hyn yn cynnwys plant o dan 11 oed.
- Dim ond yn yr awyr agored yr oedd pobl yn cael cwrdd ag aelodau o aelwydydd eraill (y tu allan i'w haelwyd estynedig).

2.14 Ym mhob rhan o Gymru:

- Nid oedd yn bosibl gwerthu alcohol ar ôl 10pm.
- Roedd pawb dros 11 oed yn gorfod gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do.
- Cynghorwyd pobl i gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, golchi dwylo'n rheolaidd a gweithio gartref os oedd yn bosibl.

Dadansoddi'r dystiolaeth

2.15 Derbyniwyd 1,092 o ymatebion i'r arolwg hwn, sy'n cyfateb i ychydig dros draean o'r grwpiau yr oedd y Mentrau Iaith yn ymwybodol ohonynt. Noder, fodd bynnag, nad ydym yn gwybod yn union faint o grwpiau cymunedol sy'n bodoli mewn gwirionedd. Mae'n debygol, felly, bod y nifer hwn o ymatebion yn debygol o gynrychioli tipyn yn llai na thraean o'r holl grwpiau sydd yn bodoli.

2.16 Wrth ddadansoddi'r ymatebion testun rhydd dilynwyd y camau canlynol:

- Ymglyfarwyddo â'r dystiolaeth a oedd wedi ei chynnwys ar gyfer y cwestiwn dan sylw drwy ddarllen yr ymatebion yn drylwyr a gwneud nodiadau am faterion neu bynciau oedd yn dod i'r amlwg.

- Datblygu system godio ar gyfer pob cwestiwn, a nodi meysydd a materion allweddol yn y dystiolaeth. Defnyddiwyd canllawiau dadansoddi thematig Braun a Clarke (2006) i lywio'r gwaith hwn.¹
- Crëwyd mapiau thematig ar sail y codau a oedd wedi eu nodi, lle'r oedd modd gwneud hynny. Defnyddiwyd y mapiau hyn fel canllaw wrth adrodd ar y dystiolaeth. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad thematig datblygedig.

2.17 Bu'r broses o ddadansoddi'r dystiolaeth yn waith ar y cyd rhwng nifer o unigolion. Mewn ymgais i sicrhau dealltwriaeth gyffredin a dull cyson o ddadansoddi cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng aelodau'r tîm. Pennwyd un aelod o'r tîm i edrych ar oddeutu 10% o ymatebion pob cwestiwn i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar draws y cwestiynau ar ddiwedd y cam codio, i adolygu'r mapiau, ac i wirio ansawdd y dull adrodd. Gwnaethpwyd hyn mewn ymgynghoriad â gweddill y tîm dadansoddi.

Cafeatau

- 2.18 Fel y nodir yn 2.9, nid ydym yn gwybod faint o grwpiau cymunedol sydd mewn gwirionedd, ac felly ni fyddwn yn gwybod pa mor gynrychioliadol o'r holl grwpiau cymunedol yw'r canfyddiadau.
- 2.19 Arolwg i'w hunan-lenwi oedd hwn. Mae'n bosibl bod dau grŵp sy'n debyg iawn eu natur wedi categoreiddio eu hunain fel gwahanol fathau o grwpiau.
- 2.20 Mae'n bosibl mai barn yr unigolion a gwblhaodd yr arolwg hwn yn unig a geir yn yr ymatebion, yn hytrach na barn y grwpiau yn eu cyfanrwydd. Mae'n debygol bod yr unigolion sydd wedi cwblhau'r arolwg hwn efallai yn ymwneud yn fwy â'u grŵp nag aelodau eraill o'r grŵp. Oherwydd hynny mae'n bosibl bod ganddynt farn wahanol am ddyfodol y grŵp neu lwyddiant eu gweithredu yn ystod y cyfnod hwn.
- 2.21 Fel y nodir yn Adran 3, ymddengys bod rhai mathau o grwpiau wedi bod yn fwy tebygol nag eraill i ymateb i'r arolwg. Mae'n bosibl hefyd bod y grwpiau cymunedol sydd wedi ymateb i'r arolwg yn wahanol i'r grwpiau sydd heb ymateb.

¹ Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), t.77-101, DOI: [10.1191/1478088706qp063oa](https://doi.org/10.1191/1478088706qp063oa)

- 2.22 Dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg felly gael eu hystyried fel arwyddion o beth allai fod yn digwydd i'r grwpiau cymunedol yn y cyfnod hwn yn hytrach nag fel canfyddiadau pendant.
- 2.23 Mae'n bwysig nodi'r ystyriaethau canlynol ynghylch y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r blychau testun rhydd:
- Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar wybodaeth y gwnaeth ymatebwyr ddewis ei rhoi.
 - Nid yw'n bosibl gwybod mwy am brofiadau'r rhai na gynigiodd wybodaeth ychwanegol o gwbl, ac nid oes ffordd o wybod am brofiadau eraill y rhai a gynigiodd wybodaeth. Hynny yw, mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig i'r hyn y dewisodd rhai ymatebwyr ei rannu am faterion penodol.
 - Mae angen ystyried hefyd y posibilrwydd bod amgylchiadau arbennig wedi peri i ymatebwyr gynnig (neu beidio â chynnig) gwybodaeth ychwanegol. Er enghraifft, gallai rhai ymatebwyr fod wedi teimlo awydd i rannu profiadau cadarnhaol neu negyddol yn unig.
- 2.24 Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg gael eu hystyried fel arwyddion o'r hyn a allai fod yn digwydd i'r grwpiau cymunedol yn ystod y cyfnod dan sylw, yn hytrach nag fel darlun cyflawn a phendant. Nid yw'r dystiolaeth ategol a geir drwy'r blychau testun rhydd o anghenraid yn cynnig darlun cyflawn na chytbwys o brofiadau'r grwpiau a gyfrannodd at yr arolwg, ond mae'n ychwanegu at yr wybodaeth a geir drwy'r dystiolaeth feintiol.


3. Y grwpiau cymunedol Cymraeg cyn y cyfnod clo

Faint a pha fath o grwpiau cymunedol Cymraeg sy'n bodoli

3.1 Drwy gymorth y Mentrau Iaith (fel y nodir ym mharagraffau 2.6-2.9) a'u hadnabyddiaeth o'u hardaloedd, cawsom wybod am fodolaeth 2,806 o grwpiau. Ar ôl inni dderbyn ymatebion yr arolwg, roedd y Mentrau Iaith yn gallu rhoi gwybod inni am y math o grwpiau nad oedd, ar sail eu dealltwriaeth nhw, wedi ymateb.

3.2 Mae Siart 3.1 yn dangos faint o bob math o grŵp a gafodd eu nodi gan y Mentrau Iaith a ymatebodd i'r arolwg.

Siart 3.1: Nifer y grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg



- 3.3 O'r grwpiau a gafodd eu nodi gan y Mentrau Iaith, ymatebodd lai na thraean o'r grwpiau crefyddol, aelwydydd yr Urdd, grwpiau am yr ardal, clybiau chwaraeon, clybiau codi arian a'r mentrau cymdeithasol. Ymatebodd oddeutu dau draean o'r grwpiau cymdeithasol, y grwpiau dysgu a'r papurau bro. Ymddengys felly fod rhai mathau o grwpiau cymunedol wedi bod yn fwy tebygol nag eraill i ymateb i'r arolwg hwn. Gall hwn hefyd fod yn arwydd o'r mathau o grwpiau sydd wedi parhau i weithredu yn ystod cyfnod yr arolwg. Mae'n bwysig cadw hyn mewn cof felly wrth ddehongli canfyddiadau'r arolwg.
- 3.4 Ymatebodd nifer o gynghorau cymuned i'r arolwg hwn. Nid oedd y rhain ymhlith y grwpiau cymunedol yr oeddem wedi bwriadu iddynt gwblhau'r arolwg yn wreiddiol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi eu cyfrif yn y nifer o grwpiau cymunedol Cymraeg sydd wedi eu nodi uchod. Daeth y mwyafrif helaeth o'r cynghorau cymuned hyn o un sir ac felly nid ydynt yn cynrychioli pob cyngor cymuned yng Nghymru. Fodd bynnag, gan eu bod yn wynebu materion tebyg i grwpiau cymunedol, rydym wedi cynnwys eu hymatebion yn ein canfyddiadau.
- 3.5 Fel y nodir ym mharagraff 2.9, drwy ddefnyddio ffynonellau eraill o wybodaeth sydd gennym ni am rai mathau o grwpiau cymunedol (e.e. data gweinyddol sydd yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru), rydym yn tybio bod y gwir nifer o grwpiau cymunedol o leiaf ychydig o gannoedd yn uwch eto na'r nifer a gafodd eu nodi gan y Mentrau i gwblhau'r arolwg hwn.
- 3.6 Ymhlith y 'Grŵp diddordeb' roedd cymdeithasau, grwpiau gwleidyddol/ieithyddol, yn ogystal â grwpiau hobi (gwnïo, garddio ac ati). Mae 'Grŵp cymdeithasol' yn cynnwys grwpiau a oedd yn cyfarfod i sgwrsio. Disgrifiwyd y rhain yn aml fel grwpiau 'coffi a chlonc', 'clwb cinio', neu 'glwb tafarn'. Bwriad rhai o'r grwpiau hyn oedd rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg, tra oedd eraill yn grwpiau cymdeithasu i siaradwyr Cymraeg. Mae 'Grŵp perfformio' yn cynnwys grwpiau drama, dawns a theatr. Mae 'Grŵp/sefydliad am yr ardal' yn cynnwys clybiau 'rotari', grwpiau sy'n gyfrifol am neuadd, ganolfan neu barc, yn ogystal â chlybiau sy'n trefnu digwyddiadau neu weithgareddau ar gyfer ardal benodol. Roedd enw'r ardal yn aml yn ymddangos yn enw'r grŵp.
- 3.7 Mae Siart 3.1 yn dangos y rhestr lawn o gategorïau'r grwpiau a ymatebodd i'r arolwg, ond yn y siartiau sy'n dilyn, mae'r grwpiau wedi eu cyfuno er mwyn lleihau'r categorïau at ddibenion dadansoddi.


3.8 Cafodd y grwpiau sy'n trefnu 'eisteddfodau' a 'gwyliau' eu cyfuno i un grŵp, y clybiau darllen, y grwpiau celf, diwylliant a chylchoedd llenyddol neu hanes eu cyfuno gyda'r 'grwpiau diddordeb' eraill, a chyfunwyd y 'clybiau cerdded' â'r 'clybiau chwaraeon' a'u galw yn 'clybiau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored'.

Ble mae'r grwpiau?

3.9 Nododd yr ardaloedd â'r gyfran a'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg hefyd y nifer mwyaf o grwpiau cymunedol Cymraeg.

3.10 Ceredigion, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin a nododd y nifer uchaf o grwpiau cymunedol Cymraeg.

Siart 3.2: Ble mae'r grwpiau cymunedol Cymraeg wedi'u lleoli




(a) Mae'n bosibl i rai grwpiau cymunedol weithio mewn mwy nag un ardal. Hefyd mae'r cyngorau cymuned wedi'u heithrio o'r siart yma, oherwydd y rhesymau a nodwyd yn 3.4

Cymorth Mentrau Iaith

- 3.11 Mae nifer o grwpiau cymunedol Cymraeg yn cael eu cefnogi gan Fentrau Iaith mewn rhyw ffordd. Efallai eu bod yn grwpiau a sefydlwyd ac a drefnir gan y Mentrau Iaith, neu fod y Mentrau Iaith yn rhoi rhywfaint o gymorth iddynt pan fo angen. Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg a oedd eu grŵp yn cael ei gynnal gan Fenter Iaith, neu'n ymwneud â Menter Iaith. Dywedodd 23% o'r grwpiau a ymatebodd i'r arolwg eu bod, 71% nad oeddent a 6% nad oeddent yn gwybod.
- 3.12 Roedd hyn yn amrywio yn ôl ardal, gyda thua un o bob deg o'r grwpiau cymunedol yn Abertawe, Wrecsam, Powys, Gwynedd a Cheredigion yn cael eu cefnogi gan Fenter Iaith. Roedd tua 4 o bob 10 yn Nhorfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin yn cael eu cefnogi gan Fentrau Iaith a bron i 6 o bob 10 grŵp yng Nghasnewydd.
- 3.13 Roedd hyn hefyd yn amrywio yn ôl y math o grŵp fel y dangosir yn Siart 3.3.

Siart 3.3: Canran o bob math o grŵp sydd yn cael cymorth o ryw fath gan y Mentrau Iaith



- 3.14 Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn ceisio canfod faint o'r grwpiau cymunedol nad oedd yn derbyn cymorth i weithredu. Mae'r Mentrau Iaith, clybiau ffermwyr ifanc, canghennau Merched y Wawr, eisteddfodau, rhai grwpiau dysgu Cymraeg, Cylchoedd Meithrin a Phapurau Bro, yn derbyn rhywfaint o arian grant gan Lywodraeth Cymru, ac felly roeddem am allu nodi cyfran y grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg, nad oeddent efallai yn derbyn cymorth.


Grwpiau newydd

- 3.15 Prif nod yr ymchwil oedd deall effaith Covid-19 a'r cyfyngiadau a osodwyd yn sgil y pandemig ar y grwpiau cymunedol sy'n gweithredu yn Gymraeg neu sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, roeddem yn ymwybodol bod rhai grwpiau newydd wedi'u sefydlu ers dechrau'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth 2020, yn sgil y pandemig. Nid archwilio profiadau'r grwpiau newydd hyn oedd prif nod yr arolwg hwn, ond roedd hi'n bosibl i'r grwpiau newydd hyn ymateb i'r arolwg.
- 3.16 Cymerodd 15 grŵp newydd ran yn yr arolwg. Ni ofynnwyd cwestiynau iddynt am y gweithgareddau yr oeddent wedi llwyddo neu heb llwyddo i'w cynnal ers diwedd mis Mawrth, ond gofynnwyd iddynt ddisgrifio sut yr oeddent yn gweithredu, a'u disgwyliadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn [adran 8](#) o'r adroddiad hwn.

Rôl gwirfoddolwyr yn y grwpiau

- 3.17 Gofynnwyd i'r grwpiau a oedd wedi eu ffurfio cyn diwedd Mawrth 2020 a oeddent yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr, ac os felly faint a beth oedd proffil oedran y gwirfoddolwyr hynny. Gofynnwyd hyn er mwyn deall mwy am y mathau o grwpiau sydd yn ddibynnol ar nifer cymharol fach o wirfoddolwyr, gan gynnwys gwirfoddolwyr hŷn.
- 3.18 O'r grwpiau cymunedol a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd 55% eu bod yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr yn unig. Roedd 24% yn grwpiau lle'r oedd rhai o'r trefnwyr yn derbyn cyflog, ac eraill yn wirfoddolwyr, ac roedd 21% yn grwpiau lle'r oedd y trefnwyr i gyd yn derbyn cyflog o ryw fath.
- 3.19 Mae Siart 3.4 yn dangos cyfran o bob math o grŵp a oedd yn dibynnu ar rai neu bob un o'u trefnwyr i wirfoddoli.

Siart 3.4: Canran y grwpiau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr, yn ôl y math o grŵp



3.20 Wrth gwblhau'r arolwg hwn, roedd modd i ymatebwyr esbonio eu trefniadau eu hunain os nad oedd un o'r tri chategori yn y siart uchod yn addas. Eglurodd nifer o'r grwpiau crefyddol mai dim ond y Gweinidog a oedd yn derbyn unrhyw dâl, gyda phawb arall yn gwirfoddoli. Hefyd, eglurodd nifer o'r cynghorau cymuned fod y clerc yn cael ei dalu, ond fod y cynghorwyr i gyd yn wirfoddolwyr.

3.21 Yn gyffredinol, roedd y grwpiau rhieni a phlant, grwpiau dysgu, aelwydydd ac adrannau'r Urdd, cylchoedd meithrin a grwpiau cymdeithasol yn tueddu i ddibynnu ar lai na phum gwirfoddolwr, tra oedd grwpiau crefyddol, grwpiau chwaraeon, Clybiau Ffermwyr Ifanc a phapurau bro yn tueddu i ddibynnu ar 20 neu fwy o wirfoddolwyr.

3.22 O'r grwpiau cymunedol a oedd yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr neu a oedd yn defnyddio cymorth gwirfoddolwyr, y grwpiau gyda'r gwirfoddolwyr hynaf oedd y


grwpiau crefyddol, grwpiau diddordeb, papurau bro, grwpiau am yr ardal, grwpiau oedd yn trefnu eisteddfodau a changhennau Merched y Wawr. Roedd gan y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn wirfoddolwyr dros 70 oed.

- 3.23 O'r grwpiau a oedd yn darparu gweithgareddau ar gyfer pobl iau (h.y. grwpiau ieuenctid a phlant, cylchoedd meithrin, aelwydydd ac adrannau'r Urdd, grwpiau rhieni a phlant a Chlybiau Ffermwyr Ifanc) roedd y trefnwyr yn dueddol o fod yn gymharol ifanc, gyda llai na 10% o'r grwpiau hyn â gwirfoddolwyr dros 70 oed.

Faint sy'n ymwneud â'r grwpiau cymunedol

- 3.24 Er mwyn deall faint o bobl sy'n cymryd rhan ym mhob math o grŵp, gofynnwyd i'r grwpiau a ymatebodd i'r arolwg faint o bobl oedd yn rhan o'r grŵp fel arfer. Dangosir hyn yn Siart 3.5.

Siart 3.5: Niferoedd sy'n rhan o'r grwpiau yn ôl math o grŵp




- 3.25 Mae'r grwpiau a ddangosir yn Siart 3.5 wedi eu trefnu yn ôl y grwpiau sydd â'r nifer mwyaf yn ymwneud â'r grŵp ar gyfartaledd, i'r rhai sydd â'r lleiaf. O'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg hwn, roedd dros draean o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc, y corau, yr aelwydydd ac adrannau'r Urdd a chlybiau chwaraeon neu weithgareddau awyr agored yn cynnwys 40 neu fwy o bobl.
- 3.26 Roedd grwpiau fel cynghorau cymuned, grwpiau dysgu neu gylchoedd meithrin yn tueddu i gynnwys llai o bobl, gyda thua hanner ohonynt yn cynnwys llai na 10 person.

Pa mor aml mae'r grwpiau cymunedol yn cwrdd

- 3.27 Gofynnwyd i'r grwpiau hefyd pa mor aml roedd y grwpiau'n cwrdd fel arfer. Roedd tua hanner y grwpiau a ymatebodd yn cwrdd o leiaf bob wythnos (17% yn amlach nag unwaith yr wythnos a 31% yn wythnosol). Roedd 7% yn cwrdd bob pythefnos, 27% bob mis, 11% yn llai aml na hynny ac 8% arall yn cwrdd yn ad hoc. Gwelir yr ymatebion yn Siart 3.6 yn ôl math o grŵp.

Siart 3.6: Amllder cwrdd yn ôl math o grŵp




3.28 Roedd y rhan fwyaf o'r mathau o grwpiau yn cyfarfod yn wythnosol neu'n amlach na hynny. Y cylchoedd meithrin oedd fwyaf tebygol o gyfarfod amlaf, gyda llawer ohonynt yn dweud eu bod yn cwrdd y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos. Roedd grwpiau a oedd yn trefnu eisteddfodau neu wyliau yn cyfarfod yn llai aml. Rhain hefyd oedd y rhai a oedd fwyaf tebygol o gyfarfod ar sail ad hoc (h.y. yn y cyfnod a oedd yn arwain at yr eisteddfod neu'r ŵyl a oedd yn cael ei threfnu). Ar y cyfan roedd papurau bro, cynghorau cymuned a changhennau Merched y Wawr yn fwy tebygol o gyfarfod bob mis.

Newid yn y niferoedd sy'n mynychu

3.29 Er mwyn canfod effaith pandemig Covid-19, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddisgrifio niferoedd y grŵp yn y ddwy flynedd cyn y cyfnod clo cyntaf (diwedd mis Mawrth 2020). Gofynnwyd iddynt a oedd y niferoedd oedd yn mynychu'r grŵp ar gynydd neu'n disgyn. Gofynnwyd hyn er mwyn nodi'r mathau o grwpiau a oedd wedi gweld gostyngiad yn eu niferoedd oherwydd y pandemig yn unig, a'r rhai a oedd wedi gweld gostyngiad cyn hynny. Dangosir yr ymatebion yn Siart 3.7, yn ôl math o grŵp.

Siart 3.7: Canran y grwpiau sy'n cynyddu/gostwng o ran niferoedd yn mynychu, yn ôl math o grŵp




- 3.30 Dywedodd mwyafrif (59%) o'r grwpiau a ymatebodd fod eu niferoedd yn sefydlog. Dywedodd 28% fod eu niferoedd wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd cyn y cyfnod clo (17% ychydig, 11% yn sylweddol) a dywedodd 13% fod eu niferoedd wedi gostwng yn ystod yr un cyfnod (11% ychydig a 2% yn sylweddol). Nid atebodd grwpiau a ffurfiwyd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf y cwestiwn hwn.
- 3.31 Grwpiau crefyddol, papurau bro a chynghorau cymuned oedd yr unig fathau o grŵp i gael cyfran uwch o'u grwpiau yn datgan bod eu niferoedd wedi gostwng yn hytrach na'u bod wedi cynyddu. Roedd tua hanner y grwpiau cymdeithasol, grwpiau ieuenctid a phlant a chylchoedd meithrin wedi gweld cynnydd yn eu niferoedd dros y ddwy flynedd flaenorol yn ogystal â thua dwy ran o bump o Glybiau Ffermwyr Ifanc.

Iaith y grŵp

- 3.32 Cyn dosbarthu'r arolwg, roedd y Mentrau Iaith wedi ceisio nodi'r grwpiau cymunedol yn eu hardaloedd a oedd yn gweithredu yn Gymraeg yn unig. Er hyn, rydym yn ymwybodol bod rhai o'r grwpiau'n gweithredu'n llwyr drwy'r Gymraeg, rhai yn ddwyieithog, ac efallai mai dim ond ychydig o gyfleoedd sydd i siarad Cymraeg mewn ambell grŵp. Felly, gofynnwyd i'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg nodi ym mha iaith yr oedd eu grŵp yn gweithredu fel rheol.
- 3.33 O'r grwpiau a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd 63% eu bod yn gweithredu yn Gymraeg bob amser, 17% yn Gymraeg yn bennaf a 13% yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal. Dywedodd 6% eu bod yn gweithredu'n Saesneg yn bennaf, a'r 2% oedd yn weddill yn gweithredu'n Saesneg bob amser.
- 3.34 Nid ydym wedi hepgor yr 8% o'r grwpiau cymunedol hyn a ddywedodd eu bod yn gweithredu'n bennaf neu bob amser yn Saesneg o'r canfyddiadau, gan y gallai eu profiadau fel grwpiau cymunedol sy'n ymateb i'r pandemig hefyd fod yr un mor berthnasol â'r grwpiau cymunedol Cymraeg. Fodd bynnag, maent wedi'u hepgor o'r cwestiynau am yr effaith ar iaith y grŵp ([adran 5](#)).
- 3.35 Dangosir yr iaith a ddefnyddir fel arfer yn ôl math o grŵp yn Siart 3.8.

Siart 3.8: Iaith a ddefnyddir gan y grwpiau fel arfer, yn ôl math o grŵp



3.36 Mae'r grwpiau yn Siart 3.8 wedi'u trefnu yn ôl math o grŵp a oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf. I'r mwyafrif helaeth o'r mathau o grwpiau a ymatebodd, roedd dros dri chwarter ohonynt yn gweithredu'n bennaf neu bob amser yn Gymraeg.

3.37 Y clybiau chwaraeon a'r cyngorau cymuned a ymatebodd i'r arolwg hwn oedd y rhai lleiaf tebygol o weithredu'n bennaf neu fel arfer yn Gymraeg.

Y gweithgareddau oedd yn cael eu cynnal gan y grwpiau cymunedol

3.38 Gofynnwyd i'r grwpiau beth oedd eu prif weithgareddau cyn y cyfnod clo cyntaf (h.y. cyn mis Mawrth 2020). Dangosir y gweithgareddau yn Siart 3.9.

Siart 3.9: Prif weithgareddau oedd yn cael eu cynnal gan y grwpiau cymunedol^(a)



(a) Noder bod y grwpiau wedi gallu dewis mwy nag un gweithgaredd felly nid yw'r canrannau yn dod i 100%


3.39 O'r grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg, y gweithgaredd mwyaf cyffredin a gynhaliwyd o gryn dipyn oedd trefnu digwyddiadau cymdeithasol dan do. Dim ond 2% o'r grwpiau a ymatebodd a ddywedodd eu bod yn cynnal gweithgareddau ar-lein cyn diwedd mis Mawrth 2020.

Pwy oedd yn dod i'r gweithgareddau

3.40 Gofynnwyd i'r grwpiau hefyd ddisgrifio'r bobl a oedd yn dod i'r gweithgareddau hynny fel arfer. Roedd y dewis yn cynnwys gweithgareddau i bobl ifanc, pobl hŷn, i ddynion neu fenywod, digwyddiadau i deuluoedd, neu weithgareddau i ddysgwyr neu fusnesau Cymraeg. Diben hyn oedd nodi'r mathau o weithgareddau yr oedd grwpiau wedi gallu parhau i'w trefnu ai peidio ers mis Mawrth 2020, ac felly nodi'r mathau o bobl a fyddai wedi teimlo effaith atal y gweithgareddau hynny fwyaf.

3.41 Mae Siart 3.10 yn dangos profil oedran y bobl a oedd fel arfer yn mynd i'r gweithgareddau neu'n cymryd rhan ynddynt. Ar gyfer pob math o weithgaredd isod, mae bariau'r siartiau wedi eu trefnu yn ôl oedran, o'r grŵp oedran ieuengaf (0-4 oed) ar y chwith i'r rhai hynaf (70+) ar y dde.

Siart 3.10: Pwy oedd yn dod i bob gweithgaredd, yn ôl oedran



- 3.42 Mae Siart 3.10 yn dangos bod dosbarthiad oedran y rhai oedd yn mynd i'r gweithgareddau hyn yn weddol debyg, gyda phobl rhwng 50 a 69 oed yn fwyaf tebygol o fynychu/cymryd rhan. Wrth reswm, plant 4 oed neu iau oedd fwyaf tebygol o fynychu grwpiau rhiant a phlentyn. Roedd gweithgareddau hamdden yn fwy tebygol o ddenu plant a phobl ifanc. Roedd proffil oedran y rhai oedd yn mynychu neu'n cymryd rhan mewn gwyliau ac eisteddfodau yn weddol gyson ymysg y grwpiau oedran, yn ogystal â gweithgareddau ar-lein (ac eithrio'r rhai ieuengaf). Pobl dros 70 oed oedd fwyaf tebygol o fynychu gweithgareddau neu gyfarfodydd crefyddol fel arfer.
- 3.43 Ar gyfer yr holl weithgareddau a restrir yn Siart 3.10, ac eithrio ymarferion cerddorol neu berfformio eraill, roedd menywod yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y gweithgareddau na dynion. Roedd menywod yn llawer mwy tebygol o drefnu ymgyrchoedd codi arian, mynd ar dripiâu a gwirfoddoli i helpu eraill yn y gymuned, ac roeddent ddwywaith yn fwy tebygol o fynychu grwpiau rhiant a phlentyn.
- 3.44 Nid oedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n cael eu gweld fel rhai i fusnesau fel y cyfryw, ond roedd busnesau yn debygol o ymwneud â gwyliau neu eisteddfodau, y papurau bro a gwaith i wella'r ardal. Gwyliau ac eisteddfodau a digwyddiadau neu berfformiadau oedd fwyaf tebygol o gael eu gweld fel gweithgareddau i ddysgwyr Cymraeg.


4. Y cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi hynny

Ydy'r grwpiau wedi gallu cynnal gweithgareddau?

- 4.1 Ar ôl i'r grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg restru'r gweithgareddau a gynhaliwyd ganddynt cyn diwedd mis Mawrth 2020, gofynnwyd iddynt a oeddent wedi cynnal y gweithgareddau hynny ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020).
- 4.2 Ar gyfer yr holl weithgareddau a nodwyd, nid oedd y mwyafrif llethol (68%) wedi eu cynnal o gwbl ers dechrau'r cyfnod clo. Eglurodd 16% eu bod wedi addasu eu gweithgareddau fel y gellid eu cynnal ar-lein, a dywedodd 7% eu bod wedi atal eu gweithgarwch ar ddechrau'r cyfnod clo, ond eu bod wedi aildechrau ers hynny.
- 4.3 Noder bod yr arolwg wedi ei gynnal rhwng 14 Medi a 9 Hydref, a bod cyfyngiadau gwahanol wedi bod mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru yn ystod cyfnod yr arolwg - gweler 2.11 i 2.13 - felly mae'n anodd bod yn sicr am yr amodau adeg llenwi'r holiadur.
- 4.4 Roedd 5% wedi addasu'r gweithgaredd yn sgil Covid-19, ond heb ei gynnal ar-lein, roedd 2% wedi addasu'r gweithgaredd i'w gynnal ar-lein ar ddechrau'r cyfnod clo, ond bellach wedi dychwelyd i'w gynnal yn eu dull arferol, ac roedd 1% yn parhau i gynnal eu gweithgaredd yn y dull arferol.
- 4.5 Rhoddodd yr 1% sy'n weddill ymatebion 'arall'. O'r rhain, mynegodd y mwyafrif eu bod wedi defnyddio cyfuniad o'r opsiynau a ddarparwyd, gan gyflawni gweithgaredd neu elfennau'r gweithgaredd ar-lein yn ogystal â chynnal y gweithgaredd y tu allan. Dywedodd nifer hefyd eu bod wedi cynnal eu gweithgaredd y tu allan yn yr haf, pan oedd y tywydd yn braf, ond ers hynny roeddent wedi dod i ben wrth i'r tywydd waethgu.
- 4.6 Mae Siart 4.1 yn dangos sut yr oedd y gweithgareddau wedi eu cynnal ers dechrau'r cyfnod clo yn ôl y math o weithgaredd.

Siart 4.1: Sut y cynhaliwyd y gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, yn ôl math o weithgaredd

- Heb gynnal y gweithgaredd ers dechrau'r cyfnod clo
- Wedi atal y gweithgaredd ar ddechrau'r cyfnod clo, ond wedi ei aildddechrau
- Wedi addasu'r gweithgaredd i'w gynnal ar-lein
- Wedi addasu i'w gynnal ar-lein ar ddechrau'r cyfnod clo, ond wedi aildddechrau yn ein dull arferol
- Wedi addasu'r gweithgaredd, yn sgil Covid-19 ond heb fod ar-lein
- Wedi cynnal y gweithgaredd fel arfer



4.7 Mae Siart 4.1 yn dangos, ar gyfer pob gweithgaredd ac eithrio gweithgareddau ar-lein, cynhyrchu papur bro neu wirfoddoli i helpu eraill yn y gymuned, fod y mwyafrif heb gael eu cynnal ers dechrau'r cyfnod clo. Nid oedd 92% o dripiâu wedi cael eu cynnal ers dechrau'r cyfnod clo. Nid oedd dros 80% o'r gwyliau neu'r eisteddfodau, ymgyrchoedd codi arian, digwyddiadau/perfformiadau, ymarferion cerddorol ac ymarferion perfformio eraill wedi cael eu cynnal ers dechrau'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf.

- 4.8 Y gweithgareddau a oedd fwyaf tebygol o fod wedi eu haddasu i'w cynnal ar-lein oedd y gweithgareddau dysgu, lle'r oedd 31% wedi'u haddasu i'w cynnal ar-lein. Roedd 24% o'r rhai a drefnodd waith i wella eu hardal wedi addasu eu gweithgaredd i fod ar-lein ac roedd 21% o'r rhai sy'n cynhyrchu papurau bro a'r rhai sy'n cyflawni gweithgareddau ar gyfer grwpiau sy'n rhannu'r un diddordeb, wedi eu haddasu i'w cynnal ar-lein.
- 4.9 Y gweithgaredd a oedd fwyaf tebygol o fod wedi ei addasu yn sgil Covid-19, ond heb ei wneud ar-lein (a gynhaliwyd y tu allan fel arfer) oedd gwirfoddoli i helpu eraill yn y gymuned, lle'r oedd 23% wedi addasu'r gweithgaredd hwn ond heb ei wneud ar-lein. Cafodd 15% o'r grwpiau sy'n gwneud gwaith i wella'r ardal, ac 8% o'r gweithgareddau hamdden a digwyddiadau cymdeithasol y tu allan eu haddasu yn sgil Covid-19 ond ni chynhaliwyd y gweithgareddau ar-lein.
- 4.10 Drwy ystyried y math o bobl a oedd fel arfer yn mynychu neu'n cymryd rhan ym mhob gweithgaredd (fel y disgrifir ym mharagraff 3.40 i 3.44), ac edrych ar sut y cynhaliwyd y gweithgareddau hyn ers dechrau'r cyfnod clo, gallwn weld a yw grwpiau penodol o bobl wedi cael eu heffeithio yn fwy neu yn llai gan y mathau o weithgareddau sydd wedi gallu parhau ai peidio.
- 4.11 Y gweithgareddau ar gyfer plant 0 i 4 oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi gallu parhau mewn rhyw ffordd, gyda 42% o'r gweithgareddau hynny'n gallu parhau, o'i gymharu â 32% o'r holl weithgareddau. Y prif reswm am hyn oedd bod cyfran uwch o'r gweithgareddau hynny wedi gallu ailddechrau erbyn iddynt gwblhau'r arolwg.
- 4.12 Roedd y gweithgareddau i ddysgwyr ychydig yn fwy tebygol na'r holl weithgareddau o fod wedi parhau (gyda 34% yn parhau, o'i gymharu â 32% o'r holl weithgareddau). Roedd cyfran ychydig yn uwch o'r gweithgareddau i ddysgwyr yn gallu cael eu darparu ar-lein.
- 4.13 Ar y cyfan, effeithiwyd ar y gweithgareddau i ddynion a menywod y grwpiau oedran iau neu hŷn mewn ffordd eithaf tebyg, gyda bron yn union yr un gyfran o'r gweithgareddau wedi gallu parhau ers dechrau'r cyfnod clo.

Ydy'r grwpiau wedi gallu gweithredu?

4.14 Ar ôl cael eu holi am y gweithgareddau yr oedd y grwpiau cymunedol wedi gallu eu cynnal ers diwedd mis Mawrth 2020, gofynnwyd i'r grwpiau sut yr oedd eu grŵp wedi gweithredu yn ei gyfanrwydd. Dangosir yr ymatebion yn Siart 4.2.

Siart 4.2: Sut mae'r grwpiau wedi gweithredu (a)



(a) Noder bod y grwpiau wedi gallu dewis mwy nag un ymateb felly nid yw'r canrannau yn dod i 100%

4.15 Dywedodd dros hanner y grwpiau nad oeddent wedi cyfarfod fel grŵp neu fod y grŵp wedi'i atal dros dro. Mynegodd 40% mai dim ond cadw mewn cysylltiad (er enghraifft, drwy gyfryngau cymdeithasol, e-bost, neu dros y ffôn) yr oeddent wedi ei wneud. Noder bod tua thraean o'r grwpiau a ddywedodd nad oeddent wedi cyfarfod hefyd wedi nodi mai dim ond cadw mewn cysylltiad yr oeddent, gan fod yr ymatebwyr wedi gallu dewis mwy nag un ymateb i'r cwestiwn hwn.

4.16 Mynegodd chwarter y grwpiau eu bod wedi addasu eu gweithgareddau arferol i'w cynnal ar-lein, tra dywedodd 13% o'r grwpiau eu bod yn cynnal gweithgareddau newydd ar-lein. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd hefyd rhwng yr ymatebion hyn, gyda thraean o'r rhai a oedd wedi addasu eu gweithgarwch i'w gynnal ar-lein hefyd yn mynegi eu bod wedi cynnal gweithgareddau newydd ar-lein.


4.17 Dywedodd 4% eu bod wedi addasu eu gweithgareddau, ond nad oeddent wedi'u cynnal ar-lein, gyda chanran debyg, 3%, yn adrodd eu bod wedi cynnal gweithgareddau newydd, ond nid ar-lein. Dim ond 1% a ddywedodd nad oedd y cyfnod clo wedi effeithio ar eu grŵp. Cylchoedd meithrin oedd y rhan fwyaf o'r rhain.

4.18 Dywedodd 1% fod eu grŵp wedi dod i ben. Noder ei bod yn bosibl fod y grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r arolwg yn wahanol i'r rhai na wnaeth ymateb, ac felly mae'n bosibl bod gwir ganran y grwpiau sydd wedi dod i ben yn uwch na hyn.

4.19 Mae Siart 4.3 yn dangos sut mae'r grwpiau wedi gweithredu yn ôl y math o grŵp. Gan ei bod yn bosibl dewis mwy nag un o'r ymatebion yn siart 4.2, er hwylustod dehongli Siart 4.3 rydym wedi eu rhoi mewn pedwar prif gategori:

- **Heb weithredu:** grwpiau a ddywedodd eu bod wedi dod i ben, heb gyfarfod neu ddim ond wedi cadw mewn cysylltiad (ond heb gynnal unrhyw weithgaredd)
- **Heb eu heffeithio/wedi ailddechrau:** grwpiau nad effeithiwyd arnynt neu a oedd wedi atal eu gweithgareddau ond wedi llwyddo i ailddechrau
- **Wedi gweithredu ar-lein:** y rhai sydd wedi addasu eu gweithgareddau gwreiddiol neu wedi cynnal gweithgareddau newydd ar-lein
- **Wedi gweithredu heb fod ar-lein:** y rhai sydd wedi addasu eu gweithgareddau gwreiddiol neu wedi cynnal gweithgareddau newydd ond ddim ar-lein

Siart 4.3: Sut mae'r grwpiau wedi gweithredu, yn ôl math o grŵp



- 4.20 Noder yn Siart 4.3, os oedd grŵp wedi nodi eu bod heb gyfarfod ond hefyd wedi nodi eu bod wedi gweithredu ar-lein, mae'r grwpiau hyn wedi eu categoreiddio yn y grŵp 'gweithredu ar-lein'.
- 4.21 Mae Siart 4.3 yn dangos mai'r grwpiau cymunedol sy'n trefnu eisteddfodau neu wyliau oedd fwyaf tebygol o beidio â bod wedi gweithredu o gwbl ers diwedd mis Mawrth, gyda 9 o bob 10 o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn datgan nad oeddent wedi cyfarfod, neu eu bod wedi cadw mewn cysylltiad yn unig. Dilynwyd hyn gan aelwydydd ac adrannau'r Urdd a grwpiau codi arian, gyda thua thri chwarter y grwpiau hyn yn dweud nad oeddent wedi gweithredu ers dechrau'r cyfnod clo.
- 4.22 Y Mentrau Iaith oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros yn weithredol yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn addasu eu gweithgareddau i'w cynnal ar-lein neu drwy drefnu gweithgareddau newydd ar-lein. Roedd tua hanner y grwpiau dysgu, papurau bro a Chlybiau Ffermwyr Ifanc a ymatebodd hefyd wedi trefnu gweithgareddau ar-lein. Y grwpiau a oedd yn trefnu eisteddfodau a gwyliau, Cylchoedd Meithrin a chlybiau chwaraeon oedd y grwpiau cymunedol oedd leiaf tebygol o fod wedi trefnu gweithgareddau ar-lein.
- 4.23 Canghennau Merched y Wawr a phartneriaethau cymunedol oedd y grwpiau a oedd fwyaf tebygol o fod wedi addasu gweithgareddau i'w cynnal ond nid ar-lein, ond dim ond tua un o bob deg o'r grwpiau hynny a wnaeth hyn.
- 4.24 Cylchoedd meithrin a chlybiau chwaraeon neu weithgareddau awyr agored oedd y grwpiau cymunedol a oedd leiaf tebygol o fod wedi cael eu heffeithio gan Covid-19, neu o fod wedi gallu aildechrau eu gweithgarwch erbyn adeg yr arolwg.
- 4.25 Ar ôl gofyn i'r grwpiau sut y gwnaethant weithredu, gofynnwyd iddynt ddisgrifio'n fras sut yr oedd y grŵp wedi cael ei effeithio ers dechrau'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Nododd nifer o'r grwpiau eu bod wedi addasu eu gweithgareddau naill ai i fod ar-lein neu i gwrdd wyneb yn wyneb o dan gyfyngiadau'r cyfnod clo. Cafwyd enghreifftiau o grwpiau'n mabwysiadu technegau a meddalwedd newydd er mwyn gallu parhau. Nododd nifer eu bod wedi cynorthwyo eu haelodau i allu mynychu'r digwyddiadau ar-lein a hefyd wedi cynorthwyo eraill yn y gymuned i fynd ar-lein. Soniodd rhai fod y niferoedd oedd yn mynychu wedi disgyn wrth iddynt fynd ar-lein, ac eraill fod y niferoedd wedi codi.
- 4.26 Soniodd rhai o'r grwpiau eu bod wedi addasu eu gweithgareddau fel eu bod yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb y tu allan neu dan do, ond bod cyfyngiadau ar y niferoedd, ac

yn achos y gweithgareddau y tu allan bod pryder y byddai'r tywydd yn newid ac na fyddai modd parhau i wneud hynny. Cyfeiriodd rhai at y gobaith o allu dychwelyd i ryw fath o normalrwydd ond y byddai hynny gyda newidiadau o ryw fath.

- 4.27 Cafwyd enghreifftiau lle'r oedd grwpiau wedi wynebu anawsterau ariannol. Roedd hyn yn bennaf yn ymwneud naill ai â lleoliadau yn methu codi rhent, neu'n methu codi arian gan fod gweithgareddau wedi methu cael eu cynnal neu wedi symud i fod ar-lein. Roedd niferoedd y rhai oedd yn mynychu wedi disgyn mewn rhai grwpiau, a hynny wedi golygu colli incwm. Roedd hynny wedi effeithio ar y rhai oedd yn ddibynnol ar y cyllid hwn i dalu costau eraill.
- 4.28 Cafwyd enghreifftiau o grwpiau yn camu i feysydd newydd, er enghraifft, creu cynlluniau oedd yn ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig drwy gefnogi pobl fregus neu fusnesau lleol. Mewn rhai achosion roedd hyn wedi dod â chefnogwyr newydd i'r grwpiau. Soniodd rhai o'r grwpiau eu bod wedi datblygu eu cynlluniau i fod yn addas i'w cynnal ar-lein, a bod niferoedd wedi codi wrth iddynt wneud hynny. Cafwyd enghraifft o gynnal gigs rhithiol a oedd wedi denu dilynwyr newydd i'r grŵp, ac enghreifftiau eraill lle'r oedd dilynwyr newydd o'r tu hwnt i Gymru. Cafwyd hefyd enghreifftiau o grwpiau yn llwyddo i godi arian. Soniodd un am eu cynllun ar-lein i helpu rhieni o gartrefi di-Gymraeg gydag addysg cyfrwng Cymraeg eu plant.
- 4.29 Cafwyd enghreifftiau o grwpiau'n methu cwrdd oherwydd natur eu gweithgarwch. Roedd y rhain yn ymwneud gan fwyaf â'r byd celfyddydol (corau/grwpiau cerddoriaeth a pherfformio, gwyliau, eisteddfodau) neu glybiau chwaraeon. Soniodd nifer o grwpiau eraill fod eu haelodau wedi methu mynychu gan fod y gweithgareddau ar-lein ac nad oedd yr offer neu'r sgiliau ganddynt i gymryd rhan.
- 4.30 Soniodd yr ymatebwyr hefyd am effaith negyddol y pandemig ar iechyd a lles aelodau'r grwpiau. Mewn nifer o achosion roedd ymgais wedi bod i oresgyn hyn drwy gyfathrebu ar-lein neu ar y ffôn, ond amlygwyd y ffaith bod y grwpiau yn gweld eisiau'r agweddau rhyngpersonol a chymdeithasol.

5. Profiadau'r grwpiau wnaeth barhau i weithredu

- 5.1 O'r 1,092 o grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg, noder mai dim ond 20% (213 o grwpiau) oedd wedi cael eu harwain gan yr arolwg i ateb y gyfres o gwestiynau am barhau i weithredu. Er i fwy nag 20% o'r grwpiau ddweud eu bod wedi cynnal 'rhywfaint' o weithgareddau, roeddent hefyd wedi dweud nad oeddent wedi cyfarfod, eu bod wedi atal y grŵp, eu bod wedi cadw mewn cysylltiad yn unig, eu bod wedi dod â'r grŵp i ben neu fod y grŵp newydd gael ei ffurfio.
- 5.2 Mae'n ymddangos bod cyswllt posibl rhwng trefniadau ac incwm y grwpiau a llwyddiant y grwpiau i weithredu yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 31% o'r grwpiau cymunedol lle'r oedd yr holl drefnwyr yn derbyn cyflog wedi llwyddo i weithredu, o'i gymharu â 24% o'r grwpiau lle'r oedd rhai o'r trefnwyr yn derbyn cyflog a 13% o'r grwpiau lle'r oedd y trefnwyr i gyd yn wirfoddolwyr.

Cymorth i weithredu

- 5.3 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd hefyd wedi llwyddo i ymgymryd ag o leiaf rhyw weithgaredd ers dechrau'r cyfnod clo a gafodd eu grŵp unrhyw gymorth neu gyngor allanol i'w helpu i gynnal eu gweithgareddau.
- 5.4 Dywedodd 42% o'r grwpiau a oedd wedi llwyddo i ymgymryd ag o leiaf rhyw weithgaredd eu bod wedi cael rhywfaint o gymorth neu gyngor allanol i'w helpu i drefnu eu gweithgareddau. Dywedodd 52% nad oeddent wedi cael cymorth, a 6% nad oeddent yn gwybod.
- 5.5 Gofynnwyd i'r grwpiau ddisgrifio'r cymorth a gawsant. O'r rhai wnaeth gynnig ymatebion, disgrifiodd llawer y cymorth fel 'cyngor', 'canllawiau' neu 'wybodaeth' (fel arfer yn ymwneud â sut y dylent weithredu). Rhoddwyd y cyngor hwn i rai o'r grwpiau, lle bu raid i eraill chwilio am y cyngor drostynt eu hunain. Gan amlaf nodwyd bod y cyngor neu'r canllawiau wedi eu darparu gan lywodraeth leol neu sefydliad ymbarél y grŵp (er enghraifft, Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc, Yr Eglwys yng Nghymru, Mudiad Meithrin).
- 5.6 Cafwyd nifer o enghreifftiau hefyd o gymorth technegol yn cael ei gynnig (er enghraifft, i ddefnyddio technoleg gwybodaeth, i ddarparu hyfforddiant neu adnoddau ar-lein, i gael gafael ar offer technoleg gwybodaeth). Nododd nifer o bapurau bro eu bod wedi cael cymorth i gyhoeddi eu papurau ar-lein drwy *Bro 360*. Nodwyd bod prifysgolion yn darparu cymorth technegol i nifer o grwpiau dysgu, a nodwyd hefyd


bod y Mentrau Iaith wedi darparu cymorth technegol neu ymarferol i grwpiau cymunedol.

- 5.7 Nododd nifer bach o grwpiau eu bod wedi cael cymorth ariannol. Soniodd rhai am grantiau Llywodraeth Cymru, tra soniodd eraill am gynllun ffyrlo Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nododd un neu ddau o'r grwpiau a oedd yn trefnu eisteddfodau neu wyliau fod eu cymorth ariannol wedi dod gan fusnesau ac unigolion lleol. Y darparwyr grantiau eraill y soniwyd amdanynt oedd Mudiad Meithrin, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a mudiadau gwirfoddol y trydydd sector.

Effeithiolrwydd y gweithredu

- 5.8 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a oedd wedi llwyddo i ymgymryd ag o leiaf rhai gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo ddisgrifio pa mor effeithiol oedd gweithgarwch y grŵp yn ystod y cyfnod o ddiwedd mis Mawrth 2020 tan iddynt gymryd rhan yn yr arolwg hwn. Fel y soniwyd ym mharagraff 5.1, dim ond un rhan o bump o'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg hwn oedd wedi llwyddo i ymgymryd â gweithgareddau ac felly wedi'u harwain at y cwestiwn hwn. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn yn Siart 5.1

Siart 5.1: Pa mor effeithiol oedd gweithgareddau'r grŵp yn ystod y cyfnod hwn



- 5.9 O'r grwpiau a oedd wedi llwyddo i ymgymryd ag o leiaf rhai gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, dywedodd 63% o'r grwpiau lle'r oedd y trefnwyr i gyd yn wirfoddolwyr nad oeddent mor effeithiol ac arfer, o'i gymharu â 39% o'r grwpiau lle'r oedd y trefnwyr yn derbyn cyflog.
- 5.10 O dybio y byddai'r grwpiau nad oeddent wedi cyflawni unrhyw weithgareddau hefyd yn adrodd nad oeddent wedi bod mor effeithiol ag arfer, yna dim ond 3% o'r grwpiau cymunedol a oedd yn bodoli cyn Mawrth 2020 a ymatebodd i'r arolwg hwn a ddywedodd eu bod wedi gweithredu'n fwy effeithiol nag arfer.

- 5.11 Gwahoddwyd y grwpiau i nodi eu rhesymau dros eu hymatebion. O'r grwpiau hynny a ddywedodd eu bod yn fwy effeithiol nag arfer, eglurodd nifer eu bod wedi helpu eu cymunedau (er enghraifft, i gefnogi unigolion a oedd yn cael eu gwarchod, cylchoedd meithrin yn gofalu am blant gweithwyr allweddol) a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Eglurodd rhai grwpiau eu bod wedi gallu cyrraedd cynulleidfia ehangach nag arfer ar-lein, a soniodd eraill am allu cyfarfod yn amlach ar-lein a'r manteision o beidio â gorfod teithio.

Gweithgareddau llwyddiannus

- 5.12 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a oedd wedi llwyddo i ymgymryd ag o leiaf rhywfaint o weithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, a oeddent yn teimlo eu bod wedi cyflawni unrhyw weithgareddau llwyddiannus. Dywedodd tri chwarter (75%) o'r grwpiau a ymatebodd eu bod wedi cyflawni gweithgareddau'n llwyddiannus, 13% nad oeddent wedi gwneud hynny, a'r 12% a oedd yn weddill nad oeddent yn gwybod.
- 5.13 Gwahoddwyd y grwpiau i nodi beth oedd eu prif lwyddiannau. Wrth sôn am yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn llwyddiannau, nododd nifer o ymatebwyr sut yr oeddent wedi addasu eu gweithgareddau i fynd ar-lein. Roedd hyn yn berthnasol i ystod o wahanol oedrannau.
- 5.14 Cafwyd gwybodaeth gan ambell i bapur bro ynglŷn â sut yr oeddent wedi mynd ati i barhau i greu cynnwys, cynnal cyfarfodydd a chreu rhifynnau i'w harddangos ar y we, ond roedd nifer bach o ymatebwyr hefyd wedi nodi na lwyddon nhw i addasu i gael papur bro ar-lein yn ystod y cyfnod clo.
- 5.15 Soniodd nifer mawr o ymatebwyr fod gweithgareddau dysgu Cymraeg wedi parhau yn llwyddiannus ar y we. Nodwyd bod nifer o gyfranogwyr wedi parhau i fagu hyder drwy fynychu sesiynau dysgu Cymraeg ar-lein, a bod ambell i gwmni wedi gallu darparu sesiynau dysgu Cymraeg rhithiol o fewn eu cwmnïau. Cafwyd enghreifftiau o weithgareddau llwyddiannus eraill yn ymwneud â dysgu Cymraeg, megis cynnal sgysiau wythnosol, darllen llyfrau, a chwisiau.
- 5.16 Nododd nifer o grwpiau eu bod wedi gallu parhau i ddarparu rhyw fath o addysg i'w cyfranogwyr drwy'r cyfnod clo, boed hynny drwy gynnal sesiynau rhithiol, neu wrth ddarparu pecynnau i blant, a chreu adnoddau newydd megis fideos. Nododd rhai grwpiau eraill eu bod hefyd wedi uwchsgilio eu cyfranogwyr i'w galluogi i ddefnyddio meddalwedd rithiol.

- 5.17 Esboniodd nifer mawr o'r grwpiau eu bod wedi rhoi trefniadau yn eu lle i gefnogi eu cymuned. Roedd enghreifftiau yn cynnwys cael ffôn symudol cymunedol i allu cadw mewn cysylltiad, cynnal a chefnogi banciau bwyd, cefnogi'r unigolion mwyaf bregus wrth ddarparu cwmni a bwydydd, a chreu clwb cinio dydd Sul. Soniodd ymatebwyr am effaith bositif y gefnogaeth hon ar godi ysbryd y gymuned a chyfrannu at lesiant.
- 5.18 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at weithgareddau celfyddydol. Cafwyd enghreifftiau o grwpiau a oedd wedi llwyddo i addasu eu gweithgareddau i rai rhithiol, ac roedd amrywiaeth eang o oedrannau wedi cymryd rhan. Cafwyd enghreifftiau hefyd o berfformiadau neu ddigwyddiadau a oedd wedi eu datblygu i fod yn rhai rhithiol, megis cynrychiadau drama, gwasanaethau crefyddol ac eisteddfodau. Roedd gwyliau wedi eu cynnal dros y we, ac ymarferion cerdd a chorawl wedi parhau mewn rhai achosion. Roedd grwpiau wedi dosbarthu pecynnau celf a chrefft i ystod eang o'r boblogaeth megis plant ifanc ac unigolion mewn cartrefi gofal.
- 5.19 Nododd amrywiaeth o grwpiau eu bod wedi ehangu eu cynulleidfafa neu ennill mwy o aelodau. Nododd rhai, megis grwpiau dysgu Cymraeg, eu bod wedi gallu cyrraedd unigolion ar draws y byd, tra nododd eraill eu bod wedi ehangu yn fwy lleol, drwy gael rhieni na fyddai'n gallu mynychu yn arferol i fynychu grwpiau ar-lein. Nododd rhai grwpiau nad oedd eu haelodaeth wedi newid, ac eraill nad oedd modd i bawb ymuno â nhw oherwydd diffyg mynediad i offer technoleg gwybodaeth, neu i'r we.

Gweithgareddau aflwyddiannus


- 5.20 Gofynnwyd i'r un grwpiau cymunedol a oedd unrhyw un o'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan eu grŵp ers diwedd mis Mawrth 2020 wedi bod yn aflwyddiannus. Dywedodd 30% o'r rhai a ymatebodd fod rhai o'u gweithgareddau yn aflwyddiannus, 52% nad oedd eu gweithgareddau'n aflwyddiannus a'r 18% a oedd yn weddill nad oeddent yn gwybod.
- 5.21 Gwahoddwyd y grwpiau i nodi'r manylion am eu gweithgareddau aflwyddiannus. Roedd rhai yn teimlo'n rhwystredig gan nad oedd modd cynnal eu gweithgareddau arferol (megis ymarfer côr neu grŵp chwaraeon) ac nad oedd modd addasu'r gweithgareddau hyn ar gyfer bod ar-lein. Nododd nifer ddiffyg ymrwymiad i'r sesiynau ar y we a bod hyn yn wir ar gyfer amrywiaeth o grwpiau ac oedrannau (er enghraifft, grwpiau rhieni a phlant, grwpiau plant ifanc, grwpiau gydag aelodau hŷn). Roedd y rhesymau dros hyn yn amrywio, gyda nifer bach yn nodi'r her o gynnal sylw plant

ifanc gyda sesiynau ar-lein, ac eraill yn nodi nad oedd rhai o'r to hŷn eisiau defnyddio technoleg.

Amllder 'cwrdd'

5.22 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a oedd wedi ymgymryd â gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, a oedd eu grŵp wedi cyfarfod neu wedi trefnu gweithgareddau'r grŵp yn fwy neu'n llai aml na chyn y cyfnod clo. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn yn Siart 5.2

Siart 5.2: Pa mor aml oedd y grwpiau yn 'cwrdd' ers dechrau cyfnod clo.




5.23 Er i 14% o'r grwpiau cymunedol ddweud eu bod wedi gallu cyfarfod yn fwy aml, roedd y gweddill wedi eu rhannu'n eithaf cyfartal rhwng y rhai oedd yn cyfarfod yr un mor aml ag arfer a'r rhai oedd yn cyfarfod yn llai aml.

Faint sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp

5.24 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a oedd wedi cynnal gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo, faint oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp, ac a oedd hyn yn fwy neu'n llai na'r niferoedd a arferai gymryd rhan cyn y cyfnod clo. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn yn Siart 5.3.

Siart 5.3: Faint oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp ar ôl y cyfnod clo, o'i gymharu â chyn y cyfnod hwnnw




5.25 Ar gyfer tua hanner y grwpiau cymunedol a oedd wedi cynnal gweithgareddau ac ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd llai o bobl wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau eu grŵp nag a arferai wneud cyn y cyfnod clo. Ni nododd 28% unrhyw newid yn y nifer a gymerodd ran a nododd 17% fod mwy o bobl yn cymryd rhan.

Ydy iaith y grŵp wedi newid

5.26 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a oedd yn gweithredu yn Gymraeg, ac wedi cynnal gweithgareddau ers mis Mawrth 2020, a oedd iaith y grŵp wedi newid.

Siart 5.4: Ydy iaith y grŵp wedi newid ers dechrau cyfnod clo.




5.27 Ar gyfer y mwyafrif llethol (90%) o'r grwpiau cymunedol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, nid oedd iaith y grŵp wedi newid. Nododd 4% eu bod yn defnyddio mwy o Gymraeg, tra dywedodd 6% eu bod yn defnyddio llai o Gymraeg.

Cynulleidfa newydd

5.28 Er mwyn canfod a oedd y grwpiau cymunedol a oedd wedi cynnal gweithgareddau ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020) wedi gallu denu cynulleidfa newydd, gofynnwyd i'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg ddisgrifio'r bobl a gymerodd ran yng ngweithgareddau'r grŵp. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn yn Siart 5.5.

Siart 5.5: Disgrifiad o'r rhai wnaeth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp ers dechrau'r cyfnod clo o'u cymharu â chyn y cyfnod hwnnw




- 5.29 Ar gyfer tua hanner y grwpiau cymunedol a oedd wedi cynnal gweithgareddau, ac wedi ymateb i'r cwestiwn hwn, y bobl oedd fel arfer yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp oedd wedi cymryd rhan yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Nododd 45% o'r grwpiau a ymatebodd fod eu gweithgareddau dros y cyfnod hwn wedi denu rhai pobl newydd, ynghyd â'r bobl oedd fel arfer yn mynychu. Dim ond 2% o'r grwpiau a nododd fod eu gweithgareddau wedi denu cynulleidfa newydd.
- 5.30 Gwahoddwyd y grwpiau i roi rhagor o fanylion am y cynulleidfaoedd yr oeddent wedi eu denu i'r grŵp. Nododd rhai fod aelodau'r gorffennol wedi ailymuno oherwydd hwylustod ymuno â sesiynau ar-lein, a nododd nifer bach fod eu cynulleidfa wedi ehangu i gynnwys aelodau o'r tu allan i Gymru. Dywedodd nifer bach iawn nad oeddent wedi ymuno â'r sesiynau ar y we am resymau megis amser neu argaeledd, diffyg offer technoleg neu ddiffyg sgiliau technoleg gwybodaeth.

6. Profiadau'r grwpiau nad ydynt wedi gweithredu

- 6.1 Nododd 80% o'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran nad oeddent wedi gweithredu ar ôl i'r cyfnod clo ddechrau ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Hynny yw nid oedd eu grŵp wedi cwrdd, neu roedd y grŵp wedi'i atal dros dro neu nad oeddent ond wedi cadw mewn cysylltiad â'r grŵp.
- 6.2 Gofynnwyd wedyn i'r grwpiau cymunedol hyn, beth oedd eu rhesymau dros beidio â gweithredu fel grŵp mewn rhyw ffordd ar ddechrau'r cyfnod clo. Dangosir y rhesymau a roddwyd yn Siart 6.1.

Siart 6.1: Rhesymau dros beidio â gweithredu wedi i'r cyfnod clo ddechrau (a)




(a) Noder bod y grwpiau wedi gallu dewis mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn dod i 100%

- 6.3 O gryn dipyn, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros beidio â gweithredu fel grŵp mewn rhyw ffordd ar ddechrau'r cyfnod clo oedd nad oedd yn ymarferol parhau o dan gyfyngiadau a rheoliadau Covid-19. Nodwyd hyn gan 93% o'r grwpiau cymunedol nad oedd wedi parhau i weithredu ar ddechrau'r cyfnod clo.
- 6.4 Yr ymateb nesaf mwyaf cyffredin a gafodd ei nodi oedd bod aelodau'n ofni neu ddim yn teimlo'n ddiogel. Nodwyd hyn gan 28% o'r grwpiau. Nododd 17% ei bod yn amhosibl addasu gweithgarwch eu grŵp, a nododd 13% nad oedd gan yr aelodau sgiliau digidol ac nad oedd yr aelodau yn dymuno cwrdd ar-lein. Nododd 9% ddiffyg darpariaeth (er enghraifft, band eang)/adnoddau a diffyg sgiliau digidol i gynnal y grŵp. Dim ond 4% a nododd fod niferoedd y grŵp wedi disgyn a 2% fod diffyg

gwirfoddolwyr yn rhesymau dros beidio â gweithredu fel grŵp pan ddechreuodd y cyfnod clo.

- 6.5 Cyngorau cymuned oedd yr unig grŵp i beidio â nodi 'ddim yn ymarferol i barhau o dan gyfyngiadau a rheoliadau Covid-19' fel eu rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â gweithredu pan ddechreuodd y cyfnod clo. Er hyn, rhoddodd tua hanner y cyngorau cymuned hyn fel eu rheswm. Eu hymateb mwyaf cyffredin oedd diffyg darpariaeth (er enghraifft, band eang)/adnoddau, gyda thua dwy ran o dair yn nodi hyn, a chwarter yn dweud nad oedd ganddyn nhw fel trefnwyr na'u haelodau sgiliau digidol. Mae Siart 6.2 yn dangos y rhesymau digidol a roddwyd gan grwpiau eraill dros beidio â gweithredu.

Siart 6.2: Rhesymau 'digidol' dros beidio â gweithredu wedi i'r cyfnod clo ddechrau ^(a)




(a) Noder bod y grwpiau wedi gallu dewis mwy nag un rheswm felly nid yw'r canrannau yn dod i 100%

- 6.6 Grwpiau crefyddol a changhennau Merched y Wawr oedd fwyaf tebygol o roi rhesymau digidol dros beidio â gallu gweithredu, a dim ond cyfran fechan o gylchoedd meithrin, aelwydydd ac adrannau'r Urdd, clybiau chwaraeon, eisteddfodau a gwyliau a grwpiau perfformiad a roddodd resymau digidol dros beidio â gweithredu.
- 6.7 Grwpiau crefyddol, clybiau ar gyfer yr ardal a changhennau Merched y Wawr oedd y rhai mwyaf tebygol o ddweud bod diffyg sgiliau digidol gan y trefnwyr ac aelodau'r grŵp yn rhesymau dros beidio â gallu gweithredu, gyda thua chwarter ohonynt yn dweud nad oedd gan eu haelodau'r sgiliau a thua un o bob chwech yn dweud nad oedd ganddyn nhw fel trefnwyr y sgiliau digidol i gynnal y grŵp.
- 6.8 Er ei bod yn ymddangos bod gan aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc sgiliau digidol, nhw oedd y grŵp oedd fwyaf tebygol o ddweud nad oedd eu haelodau eisiau cyfarfod ar-lein. Rhoddodd 42% ohonynt hyn fel eu rheswm dros beidio â gweithredu. Rhoddodd 31% o'r grwpiau crefyddol y rheswm hwn hefyd.
- 6.9 Er mai cynghorau cymuned oedd fwyaf tebygol o bell ffordd o nodi diffyg darpariaeth (er enghraifft, band eang)/adnoddau, fel eu rheswm dros beidio â gweithredu, rhoddodd un rhan o bump o'r Mentrau Iaith a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc y rheswm hwn hefyd.
- 6.10 Nododd 22% o fentrau cymdeithasol/partneriaethau cymunedol ddiffyg gwirfoddolwyr fel rheswm dros beidio â gweithredu pan ddechreuodd y cyfnod clo. Nid yw'n amlwg p'un ai'r pandemig ei hun oedd wedi achosi'r diffyg gwirfoddolwyr, neu a oedd y pandemig yn golygu bod angen mwy o wirfoddolwyr arnynt nag o'r blaen, neu a oedd ganddynt ddiffyg gwirfoddolwyr cyn y pandemig. Nododd cyfran is o glybiau am yr ardal (7%) ac aelwydydd ac adrannau'r Urdd (6%) ddiffyg gwirfoddolwyr fel rheswm hefyd.
- 6.11 Roedd 22% o fentrau cymdeithasol/partneriaethau cymunedol hefyd wedi nodi bod niferoedd eu grwpiau wedi gostwng. Unwaith eto, nid yw'n hysbys ai'r pandemig oedd wedi achosi hyn, neu a oedd eu niferoedd yn gostwng cyn y pandemig. Nododd cyfran is o bapurau bro (15%), cylchoedd meithrin (13%) a chlybiau ffermwyr ifanc (11%) fod niferoedd eu grwpiau wedi gostwng fel eu rheswm hefyd.
- 6.12 Dywedodd traean o'r mentrau cymdeithasol/partneriaethau cymunedol a'r Mentrau Iaith a ymatebodd i'r arolwg hwn, ac nad oeddent wedi gweithredu ar ôl dechrau'r cyfnod clo, ei bod yn amhosibl addasu gweithgarwch y grŵp. Nodwyd hyn hefyd gan

28% o grwpiau diddordeb, 26% o glybiau ffermwyr ifanc, 26% o glybiau chwaraeon, 24% o gorau a 22% o glybiau neu gymdeithasau ar gyfer yr ardal.

- 6.13 Mae Siart 6.3 yn dangos cyfran y grwpiau a ddywedodd mai'r ffaith bod eu haelodau'n ofni neu ddim yn teimlo'n ddiogel oedd un rheswm dros beidio â gweithredu.

Siart 6.3: Canran y grwpiau a ddywedodd mai eu rheswm dros beidio â gweithredu oedd bod eu haelodau yn teimlo'n anniogel neu'n ofni, yn ôl math o grŵp



- 6.14 Mentrau cymdeithasol/partneriaethau cymunedol, grwpiau crefyddol a changhennau Merched y Wawr oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu haelodau yn ofni neu ddim yn teimlo'n ddiogel fel rheswm dros beidio â gweithredu. Aelwydydd ac adrannau'r Urdd, grwpiau rhiant a phlentyn a grwpiau ieuencid a phlant oedd leiaf tebygol o nodi hyn fel rheswm. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchiad o wahanol broffiliau oedran y bobl sydd yn mynychu'r grwpiau hyn fel arfer.
- 6.15 Gwahoddwyd y grwpiau cymunedol nad oeddent wedi gweithredu mewn rhyw ffordd ar ddechrau'r cyfnod clo i roi rhagor o fanylion i egluro eu sefyllfa. O'r ymatebwyr a

gynigiodd wybodaeth ychwanegol, cyfeiriodd rhai at y ffaith bod eu grŵp neu eu sefydliad yn cynnwys aelodau hŷn, gyda rhai ohonynt yn fregus o ran eu hiechyd. Nodwyd hefyd nad oedd ganddynt y sgiliau technoleg, neu'r hyder, i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein.

- 6.16 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion yn gysylltiedig â rheolau'r cyfnod clo fel rheswm pam nad oeddent wedi parhau i weithredu. Roedd clybiau neu grwpiau chwaraeon, a hefyd corau, yn amlwg yn yr atebion hyn. Un agwedd benodol yn gysylltiedig â'r rheolau oedd y ffaith bod lleoliad neu adeilad yn rhy fach i ganiatáu'r pellter angenrheidiol. Cyfeiriodd ambell un o'r ymatebwyr at yr her o gynnal momentwm neu ddiddordeb y grŵp, ac o feddwl am syniadau newydd ar gyfer gweithgareddau.
- 6.17 Ffactor arall a nodwyd gan ymatebwyr oedd anawsterau neu gyfyngiadau yn ymwneud â chyllid. Roedd y sefyllfaoedd hyn yn cynnwys yr her o barhau yn gynaliadwy yn wyneb gostyngiad yn nifer y mynychwyr, a'r ffaith nad oedd dulliau arferol o godi arian neu dderbyn nawdd wedi gallu parhau.

Grwpiau wedi'u hatal


- 6.18 Dywedodd 1% o'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi dod â'r grŵp i ben ers diwedd mis Mawrth 2020 (gweler Siart 4.2). Mae'n bwysig nodi bod hyn yn cyfateb i saith ymateb i'r arolwg. O'r rhain, dim ond tri a roddodd reswm dros ddirwyn y grŵp i ben. Nododd un ddiffyg gwirfoddolwyr, soniodd un am yr anawsterau o gynnal grŵp o rieni yn ystod y cyfnod clo pan oedd rhieni'n gorfod cydbwyso addysgu'u plant gartref a'u gwaith, ac eglurodd y llall fod y grŵp yn codi arian ar gyfer eisteddfod a gafodd ei chanslo, ac felly wedi cyflawni eu pwrpas am y tro.

7. Barn am ddyfodol y grwpiau

Y dyfodol, pe bai rheolau cadw pellter cymdeithasol yn parhau?


- 7.1 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg pa mor debygol oedd hi y byddai'r grŵp yn parhau pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fod mewn grym ymhén blwyddyn. Dywedodd traean (33%) o'r grwpiau eu bod yn debygol iawn o barhau, ac ychydig yn llai na hynny (29%) eu bod yn eithaf tebygol o barhau.

Siart 7.1: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn



- 7.2 Roedd barn y grwpiau yn amrywio yn ôl math o grŵp, gyda phapurau bro, Mentrau Iaith a chynghorau cymuned yn fwy tebygol o nodi y byddai'r grŵp yn debygol o barhau i fodoli mewn blwyddyn, o'i gymharu â chlybiau am yr ardal, corau, grwpiau cymdeithasol a grwpiau perfformio. Mae hyn i'w weld yn Siart 7.2.
- 7.3 Wrth ystyried y math o weithgareddau a gynhaliwyd gan y grwpiau, dim ond tua hanner y grwpiau a oedd yn cynnal ymarferion cerddorol, ymarferion perfformio ac a oedd yn trefnu eisteddfodau neu wyliau oedd yn teimlo eu bod yn debygol o allu parhau pe bai'r cyfyngiadau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli ymhén blwyddyn. Roedd dros 80% o'r grwpiau a oedd yn cynnal gweithgareddau ar-lein, yn cynhyrchu papur bro, yn trefnu gwaith ar gyfer yr ardal neu'n gwirfoddoli yn y gymuned yn teimlo y bydden nhw'n gallu parhau.

Siart 7.2: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp



7.4 Gwahoddwyd y grwpiau i roi rhagor o fanylion i egluro eu hymateb i'r cwestiwn hwn. O blith y rhai a gynigiodd fanylion pellach esboniodd nifer o'r grwpiau sut yr oeddent wedi addasu er mwyn gweithredu yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau ar-lein neu rithiol. Dywedodd grwpiau eraill eu bod wedi gweithredu yn yr awyr agored, er i rai nodi bod y gaeaf ar y gweill ac y byddai tywydd gwael yn rhywbeth i'w ystyried. Dywedodd rhai grwpiau eu bod wedi rhoi mesurau diogelwch ar waith yn barod. Nododd rhai o'r Cylchoedd Meithrin a'r grwpiau Ti a Fi nad oedd rhaid i blant ddilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol, dim ond rhieni a

chynorthwywyr. Cyfeiriodd rhai at gyfleoedd i wneud mwy neu i ailddechrau pan fyddai'r cyfyngiadau presennol wedi dod i ben.


- 7.5 O'r rhai a atebodd, cyfeiriodd nifer at adnoddau penodol. Roedd cyllid yn thema gyffredin, gyda rhai grwpiau yn cyfeirio at ddiffyg cyllid, ond nododd eraill fod eu sefyllfa ariannol yn gynaliadwy, gyda rhai yn sôn am gefnogaeth ariannol yr oeddent wedi ei derbyn drwy grantiau. Cyfeiriodd rhai at ddiffyg lle cyfarfod a chyfleusterau addas, neu at y ffaith bod eu man cyfarfod presennol yn anaddas, er enghraifft gan ei fod yn rhy fach, neu gan ei fod yn perthyn i grŵp arall ac nad oedd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedodd eraill fod ganddynt fynediad i fan cyfarfod addas.
- 7.6 Cafwyd peth cyfeirio at reolau neu gyfyngiadau penodol a oedd yn rhwystro grwpiau rhag cynnal eu gweithgareddau arferol, gyda rhai yn dweud bod y rheolau wedi eu hatal rhag gweithredu yn gyfan gwbl. Ymhlith y rhain roedd cyfyngiadau o ran canu, cwrdd dan do, a gweithgareddau wyneb yn wyneb. Cyfeiriodd rhai at y cyfyngiadau o ran gallu cynnal gweithgareddau yn yr ysgolion a oedd wedi eu heffeithio.
- 7.7 Nododd rhai grwpiau fod eu haelodau yn oedrannus neu'n fregus, ac na fyddent efallai yn hyderus i gwrdd am gryn amser eto. Soniodd eraill am golli niferoedd, neu am aelodau yn colli diddordeb. Soniwyd hefyd am yr angen i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol gydag aelodau.
- 7.8 Cafodd amrywiaeth o agweddau eu mynegi gan yr ymatebwyr, gyda rhai yn sôn am obaith ar gyfer y dyfodol, neu am hanes neu bwysigrwydd eu gwaith, ac eraill yn sôn yn hytrach am ansicrwydd ynghylch y dyfodol.

Y dyfodol, pe na bai rheolau cadw pellter cymdeithasol yn parhau?

7.9 Gofynnwyd wedyn i'r grwpiau cymunedol, pa mor debygol fyddai eu grŵp o barhau pe na bai'r rheolau hynny'n bodoli ymhén blwyddyn. Roedd 88% o'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo bod eu grŵp yn debygol o fodoli ymhén blwyddyn pe na bai'r rheolau yn bodoli.

7.10 Fodd bynnag, teimlai 7% o'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg ei bod yn annhebygol y byddai eu grŵp yn bodoli ymhén blwyddyn, hyd yn oed pe na bai'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol mewn grym (teimlai 4% ei fod yn 'eithaf annhebygol' a 3% ei bod yn 'annhebygol iawn'). Dywedodd 6% ychwanegol nad oeddent yn gwybod. Mae Siart 7.3 yn dangos pa mor debygol oedd bob math o grŵp o deimlo y bydden nhw'n gallu parhau pe na bai'r rheolau yn bodoli mewn blwyddyn.

Siart 7.3: Tebygolrwydd y bydd y grŵp yn bodoli pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp




- 7.11 Fel y gwelir yn Siart 7.3, teimlai'r mwyafrif helaeth o bob math o grŵp eu bod yn debygol o barhau pe na fyddai unrhyw reolau cadw pellter cymdeithasol yn bodoli ymhen blwyddyn. Roedd pob un o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r cynghorau cymuned a ymatebodd i'r arolwg hwn yn teimlo eu bod yn debygol o barhau. Y grwpiau a oedd ychydig yn llai sicr o'u dyfodol oedd y grwpiau codi arian, y grwpiau dysgu a chlybiau ar gyfer yr ardal, lle'r oedd 19%, 18%, a 14% yn y drefn honno yn teimlo eu bod yn annhebygol o barhau hyd yn oed pe na bai'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol yn bodoli.
- 7.12 Gwahoddwyd y grwpiau i roi rhagor o fanylion i egluro eu barn am ddyfodol eu grŵp pe na bai'r rheolau am gadw pellter cymdeithasol yn bodoli mewn blwyddyn. Noder fodd bynnag, mai dim ond y grwpiau hynny a oedd wedi dweud yn y cwestiwn blaenorol fod eu grŵp yn annhebygol o barhau pe byddai'r rheolau am gadw pellter cymdeithasol yn parhau aeth ati i ateb y cwestiwn hwn.
- 7.13 O blith yr ymatebwyr hynny a gynigiodd ragor o fanylion, cyfeiriodd nifer at y gwahaniaeth rhwng y rheoliadau yn dod i ben, a'r pandemig yn dod i ben. Felly roedd rhai yn bryderus ynghylch diogelwch, hyd yn oed pe bai'r cyfyngiadau wedi eu codi. O'r rhain, nododd rhai'r posibilrwydd o frechlyn, fel rhywbeth a fyddai'n gwneud y sefyllfa yn fwy diogel.
- 7.14 Yn gysylltiedig â phryderon ynghylch diogelwch, soniodd rhai am oedran neu natur fregus eu haelodau. Dywedodd rhai hefyd fod arnynt angen aelodau newydd neu wirfoddolwyr i gynorthwyo, a'u bod yn poeni bod y grŵp wedi colli niferoedd neu golli momentwm yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, dywedodd eraill fod aelodau yn awyddus i gwrdd eto, gan nodi hefyd bwysigrwydd y gwaith iddynt.
- 7.15 Cododd rhai bryderon ynghylch cyllid, neu fan cyfarfod addas, yn arbennig y rheini oedd yn dibynnu ar leoliad oedd yn perthyn i sefydliad arall. Roedd bod yn rhan o sefydliad ymbarél o gymorth i rai.
- 7.16 Nododd rhai y posibilrwydd o addasu, er enghraifft, drwy wneud rhywbeth ar-lein, neu wneud rhai elfennau o'u gweithgareddau.
- 7.17 Nododd rhai ansicrwydd ynghylch y dyfodol, a'r hyn a allai ddod yn lle'r cyfyngiadau presennol, gyda rhai o'r rhain yn nodi rheolau penodol a allai eu rhwystro rhag gweithredu.

Gweithredu yn y dyfodol

7.18 Gofynnwyd i'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg sut y bydden nhw'n disgwyl i'w grŵp weithredu ymhen blwyddyn, pe na bai'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol yn bodoli. Noder na ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r grwpiau a ddywedodd eu bod yn annhebygol iawn o barhau. Yr ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd oedd y bydden nhw'n mabwysiadu ambell ffordd newydd o weithredu, ond ar y cyfan yn gweithredu fel yr oeddent. Rhoddodd ychydig yn llai na hanner y grwpiau (45%) yr ymateb hwn. Dywedodd 31% y bydden nhw'n mynd yn ôl i weithredu yn union fel yr oeddent. Dywedodd 13% y bydden nhw'n mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithredu, a dywedodd 10% ei bod yn anodd dweud. Dim ond ychydig iawn o'r grwpiau a ddywedodd y bydden nhw'n newid eu ffordd o weithredu yn gyfan gwbl (1%). Dangosir yr ymatebion yn ôl y math o grŵp yn Siart 7.4.

Siart 7.4: Sut y bydd y grŵp yn gweithredu pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, yn ôl math o grŵp



- 7.19 Yr unig fath o grŵp gyda mwy na hanner yn dweud y bydden nhw'n mynd yn ôl i weithredu yn union fel yr oeddent oedd cynghorau cymuned. Ni ddywedodd unrhyw un o'r Mentrau Iaith na'r grwpiau codi arian y bydden nhw'n mynd yn ôl i weithredu yn union fel yr oeddent. Roedd Mentrau Iaith yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp arall o ddweud y bydden nhw'n mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithredu.
- 7.20 Gwahoddwyd y grwpiau i roi rhagor o fanylion i egluro sut y bydden nhw'n disgwyl i'w grŵp weithredu pe na bai'r rheolau cadw pellter cymdeithasol yn bodoli mewn blwyddyn. Soniodd rhai y bydden nhw'n parhau i gynnal rhai gweithgareddau ar-lein, fel y gwnaethant yn ystod y cyfnod clo. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd ar-lein, a dosbarthu papurau bro digidol. Nododd rhai ymatebwyr fanteision cynnal ambell weithgaredd ar-lein, er enghraifft rhesymau amgylcheddol. Yn ôl rhai ymatebwyr, roedd cynnal gweithgareddau ar-lein yn hwyluso rhai i allu mynychu'r digwyddiad, yn enwedig i bobl o ardaloedd gwledig.
- 7.21 Roedd nifer mawr iawn yn awyddus i barhau gydag arferion megis cadw pellter cymdeithasol a chynnal hylendid cyffredinol (fel golchi dwylo'n rheolaidd a diheintio offer). Roedd hyn yn amlwg iawn i rai grwpiau, fel cylchoedd meithrin. Nododd rhai y gallai hyn roi hyder i bobl fynychu gweithgareddau wyneb yn wyneb unwaith eto. Cyfeiriodd rhai at y costau ychwanegol ynghlwm wrth ymaddasu i ddulliau newydd o weithredu. Roedd hyn yn cynnwys cost prynu offer glanhau a diheintio.
- 7.22 Cafodd dulliau newydd eraill o weithredu eu crybwyll hefyd, gan gynnwys cynnal gweithgareddau y tu allan pan fo hynny'n bosibl, yn ogystal â chynnal gweithgareddau mewn lleoliadau neu ystafelloedd mwy.
- 7.23 O'r rhai a oedd yn ansicr ynghylch beth fyddai dyfodol eu grŵp, soniodd nifer helaeth y byddai hyn yn dibynnu ar argaeledd brechlyn. Roedd rhai hefyd wedi nodi y byddai'n rhaid cael arweiniad yn nes at yr amser cyn gallu penderfynu parhau â'u gweithgareddau ai peidio. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn fod dyfodol eu grŵp hefyd yn ddibynnol ar ddenu rhagor o aelodau i'w grwpiau, gan gynnwys aelodau iau. Roedd grwpiau perfformio yn enwedig yn nodi y gallai parhau â'u gweithgareddau nhw fod yn heriol pe bai rheolau cadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli.
- 7.24 Nododd nifer bach o'r rhai a ymatebodd nad oedden nhw'n gweld dyfodol i'w grwpiau. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau crefyddol, a grwpiau neu ddosbarthiadau dysgu.

Beth allai helpu'r grwpiau?

- 7.25 Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg beth allai eu helpu fel grŵp i barhau a ffynnu yn y dyfodol. Un ffactor amlwg oedd bod y grwpiau eisiau caniatâd i allu dechrau cwrdd eto, ac eisiau derbyn canllawiau clir ar sut i wneud hynny'n ddiogel. O'r rhai a gynigiodd ateb, dywedodd nifer fod angen i'w haelodau deimlo'n hyderus er mwyn dychwelyd i'r grŵp.
- 7.26 Nododd rhai eu bod yn edrych ymlaen at ailgydio yn y gweithgareddau (er bod rhai yn ymwybodol na fyddai'r gweithgareddau'n union yr un peth ag yr oeddynt cyn y cyfnod clo). Y prif beth a amlygwyd yn y sylwadau hyn oedd eu bod yn gobeithio y gallai pobl ddod yn ôl at ei gilydd gan sicrhau diogelwch pawb.
- 7.27 Nododd nifer y byddai ffactorau yn uniongyrchol berthnasol i'r feirws ei hun yn eu helpu i barhau a ffynnu yn y dyfodol. Nododd nifer y byddai brechlyn yn cefnogi eu hymdrechion, tra nododd eraill mai'r unig ffordd y bydden nhw'n gallu parhau yn ddiogel fyddai pe byddai diwedd i'r cadw pellter cymdeithasol neu ddiwedd i'r feirws yn gyfan gwbl.
- 7.28 Nododd nifer fechan eu bod yn gobeithio parhau gan, er enghraifft, gynnal gweithgareddau y tu allan, newid lleoliad er mwyn gallu cwrdd â chyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, neu addasu maint eu grwpiau er mwyn cydymffurfio â'r rheolau cadw pellter.
- 7.29 Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i ddatblygu mynediad aelodau'r grŵp i dechnoleg yn ogystal ag uwchsgilio eu haelodau ar sut i ddefnyddio technoleg fel modd o barhau ar-lein i fod yn rhan o weithgareddau'r grŵp. O'r rhai a gynigiodd sylw ar hyn cyfeiriodd nifer fechan at y ffaith bod rhai o'r aelodau yn hŷn, a hyd yn oed os oedd ganddynt gyswllt â'r we, efallai nad oedd ganddynt y cyfarpar priodol ar gyfer ymuno â sesiynau drwy apiau megis Zoom neu Microsoft Teams na'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r offer. Nododd rhai eu bod yn awyddus i addasu eu grwpiau i weithredu mwy ar-lein, gan gynnwys treialu syniadau newydd o ran y dechnoleg sydd ar gael, ond fod angen buddsoddiad neu gyllid i wireddu'r gobaith hwn.
- 7.30 Cyfeiriodd nifer at yr angen am gyllid er mwyn gallu parhau. Roedd rhai grwpiau yn gobeithio am fuddsoddiad ar gyfer adnoddau, talu rhent, buddsoddi mewn technoleg neu symud lleoliad. Roedd nifer yn bryderus fod angen sicrwydd o dderbyn cyllid parhaol ac eraill yn poeni am y colledion oedd eisoes wedi eu taro oherwydd eu bod

wedi gorfod cau dros y cyfnod clo. Nododd nifer fechan iawn eu bod yn teimlo'n hyderus gan eu bod wedi derbyn grant neu barhad i'w cyllid.

7.31 Ar y cyfan, roedd nifer yn nodi y byddai codi ymwybyddiaeth am eu grŵp yn helpu gyda'u llwyddiant a'u parhad. Ymhlith y rhesymau a nodwyd oedd:

- yr angen i gael mwy o rieni i ymwneud â lleoliadau gofal plant;
- meddwl am sut i farchnata'r grŵp i apelio i aelodau newydd;
- hysbysebu gweithgareddau (boed hynny yn rhai sy'n parhau neu'n newydd);
- hybu'r Gymraeg ymhellach;
- recriwtio aelodau newydd (yn aml iawn, roedd gofyn am aelodau iau).


7.32 Nododd nifer bach eu bod yn credu y byddai cydweithio gyda grwpiau a/neu fudiadau mwy o faint yn eu cynorthwyo i lwyddo yn y dyfodol. Nododd eraill eu bod eisiau parhau i gynnal gweithgareddau gan fod manteision clir i les eu haelodau.

Gwersi a ddysgwyd

7.33 Gofynnwyd i bob grŵp cymunedol a gymerodd ran yn yr arolwg a oeddent wedi dysgu unrhyw wersi ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020), a fyddai'n eu rhoi mewn gwell sefyllfa i ymateb pe bai cyfnod clo arall yn y dyfodol.

7.34 Dywedodd 43% o'r rhai a ymatebodd eu bod wedi dysgu gwersi, 27% nad oeddent, a dywedodd 30% nad oeddent yn gwybod. Mae Siart 7.5 yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl math o grŵp.

Siart 7.5: A oedd y grwpiau wedi dysgu gwersi, yn ôl math o grŵp



7.35 Mae Siart 7.5 yn dangos mai'r Mentrau Iaith, cynghorau cymuned, Cylchoedd meithrin a grwpiau dysgu oedd fwyaf tebygol o deimlo eu bod wedi dysgu gwersi a fyddai'n eu rhoi mewn gwell sefyllfa i ymateb yn y dyfodol. Corau, clybiau ar gyfer yr ardal a grwpiau cymdeithasol oedd y lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi dysgu unrhyw wersi.

- 7.36 Gofynnwyd wedyn i'r grwpiau cymunedol a ddywedodd eu bod wedi dysgu gwersi ddisgrifio'r gwersi hynny. Cafwyd ambell achos hefyd o ymatebwyr yn cynnig gwybodaeth berthnasol er nad oeddent wedi ateb 'ydyn' i'r cwestiwn hwn.
- 7.37 Roedd y gwersi a ddisgrifiwyd yn cyfeirio at sgiliau neu wybodaeth benodol yr oeddent wedi eu hennill yn ystod y cyfnod clo, a hefyd yn cwmpasu 'gwersi a ddysgwyd' yn yr ystyr o fod wedi elwa ar eu profiad mewn rhyw ffordd. Cyfeiriodd ymatebwyr at agweddau'n ymwneud â defnyddio technoleg. Roedd dysgu sut mae defnyddio platfformau digidol i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn un elfen amlwg yn yr ymatebion hyn. Cyfeiriodd eraill at y ffaith eu bod wedi cynyddu eu defnydd o ddulliau cyfathrebu digidol yn ehangach. , Cafwyd sylw gan ambell un o'r ymatebwyr ynghylch y ffaith eu bod yn ystyried neu yn gweld gwerth parhau i weithredu, o leiaf yn rhannol, ar-lein y tu hwnt i gyfnod y pandemig..
- 7.38 I rai roedd y gwersi a ddysgwyd yn ymwneud ag ystyriaethau diogelwch a chatau atal lledaeniad y feirws. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn eu bod mewn sefyllfa gadarnhaol i weithredu yn y dyfodol gan eu bod â gwell dealltwriaeth o faterion megis cadw pellter, a threfniadau glanhau a diheintio.
- 7.39 Cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at y gwersi yr oeddent wedi eu dysgu o ran cynaliadwyedd cyllidol yn ystod y cyfyngiadau. Roedd y materion hyn yn cynnwys pwysigrwydd cadw arian wrth gefn; bod yn effro i ddulliau newydd o ddenu nawdd neu godi arian, a'r angen i ysgwyddo costau newydd (gan gynnwys ar gyfer cyfarpar diogelwch a diheintio, a hyfforddiant i wella sgiliau digidol). Un nodwedd a ymddangosodd mewn ffyrdd amrywiol yn y sylwadau oedd y ffaith bod y cyfyngiadau wedi amlygu pwysigrwydd bod yn rhan o gymuned a chadw mewn cysylltiad. I ambell un roedd methu cynnal y dulliau arferol o gadw mewn cysylltiad a chymdeithasu wedi gwneud iddynt sylweddoli pwysigrwydd hyn iddynt. I eraill roedd y camau yr oeddent wedi eu cymryd yn ystod y cyfyngiadau i gynnal a chynorthwyo aelodau'r gymuned wedi amlygu gwerth y gefnogaeth hon.

8. Y grwpiau newydd

- 8.1 Prif nod yr ymchwil hon oedd deall effaith Covid-19 ar y grwpiau cymunedol a oedd eisoes yn bodoli cyn y pandemig. Wrth ddatblygu'r holiadur, penderfynwyd ychwanegu pedwar cwestiwn ar ddiwedd yr holiadur i roi cyfle i'r grwpiau newydd, a gafodd eu sefydlu ar ôl dechrau'r cyfnod clo, i rannu eu profiadau. Cwblhaodd 15 o'r grwpiau newydd hyn yr arolwg.
- 8.2 Roedd y grwpiau newydd a ymatebodd yn amrywio o ran eu haelodaeth, eu diben a'u diddordebau, ond roedd gan y mwyafrif un peth yn gyffredin: roeddent yn cwrdd yn rhithiol. Cafwyd un enghraifft o grŵp yn cynnal un o'u gweithgareddau y tu allan.
- 8.3 Roedd y grwpiau'n cynnwys grŵp llenyddol, grŵp hanesyddol, grŵp crefyddol, grŵp cymdeithasol, grŵp diddordeb, ychydig o grwpiau rhiant a phlentyn, ac ychydig o grwpiau dysgu Cymraeg.
- 8.4 Gofynnwyd i'r grwpiau newydd hyn pa mor debygol oedd hi y bydden nhw'n parhau i fodoli fel grŵp pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn bodoli mewn blwyddyn. Teimlai'r rhan fwyaf o'r grwpiau newydd ei bod yn debygol y bydden nhw'n parhau i fodoli. Dywedodd rhai ohonynt y byddai'n bosibl parhau ar-lein, a dywedodd rhai y byddai'r gweithgaredd, mae'n debyg, yn newid i fod yn un wyneb yn wyneb pe bai'r sefyllfa'n caniatáu hynny. Soniodd rhai fod parhau yn ddibynnol ar y galw.
- 8.5 Pan ofynnwyd sut y bydden nhw'n disgwyl i'r grŵp weithredu pe na bai'r rheolau presennol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, unwaith eto soniodd rhai am barhau ar-lein. Roedd eraill am gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb, a mynegodd rhai ddymuniad i wneud cymysgedd o barhau ar-lein a gweithgareddau wyneb yn wyneb.
- 8.6 Gofynnwyd hefyd i'r grwpiau newydd a ymatebodd beth allai eu helpu fel grŵp i barhau a ffynnu yn y dyfodol. Ymhlith yr ymatebion a gynigiwyd yr oedd amrywiaeth o enghreifftiau, gan gynnwys mwy o adnoddau ar-lein; y gallu i gyfarfod wyneb yn wyneb; cadw'r cysylltiadau sydd wedi'u creu; cyllid i dalu costau; rhestr o leoliadau addas i gynnal gweithgareddau, a chymorth i hyrwyddo gweithgareddau/cyfleoedd yn dda yn lleol.

9. Casgliadau

Y sefyllfa cyn y pandemig

- 9.1 Er na fyddwn byth yn gwybod faint yn union o grwpiau cymunedol sydd yng Nghymru sy'n gweithredu yn Gymraeg, roedd y Mentrau Iaith, gyda'u dealltwriaeth drwyadl o sefyllfa'r grwpiau hynny yn eu hardaloedd lleol, wedi nodi 2,806 ohonynt a'u gwahodd i gwblhau arolwg ar-lein.
- 9.2 Ymatebodd 1,092 o grwpiau cymunedol i'r arolwg hwn yn ystod y tair wythnos rhwng 14 Medi a 9 Hydref 2020. I ryw raddau, mae hyn yn awgrymu bod tipyn o ymrwymiad i'r grwpiau cymunedol hyn, yn ystod cyfnod anodd iawn o ran cynnal unrhyw gyfarfodydd yn y gymuned. Mae hefyd yn awgrymu bod rhywfaint o awydd i sicrhau y gallai'r grwpiau wrthsefyll y pandemig hwn.
- 9.3 Fodd bynnag, dylid nodi y gallai grwpiau a ymatebodd i'r arolwg hwn fod yn dra gwahanol i'r rhai na wnaethant ymateb, ac felly dylid ystyried unrhyw ganfyddiadau fel arwyddion o sefyllfa'r grwpiau cymunedol ers i'r pandemig ddechrau yn hytrach nag fel canfyddiadau pendant.
- 9.4 O'r grwpiau a ymatebodd i'r arolwg hwn, mae mwyafrif ohonynt (55%) yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig, gyda nifer ohonynt yn dibynnu ar 20 o wirfoddolwyr neu fwy. Roedd gan y rhan fwyaf o'r grwpiau crefyddol, grwpiau diddordeb, Papurau Bro, grwpiau ar gyfer yr ardal, grwpiau a drefnodd eisteddfodau a changhennau Merched y Wawr wirfoddolwyr dros 70 oed.
- 9.5 Roedd y grwpiau'n amrywio o ran maint, gyda thros draean o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc, corau, grwpiau'r Urdd a chlybiau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored yn cynnwys dros 40 o aelodau, tra oedd grwpiau dysgu a chylchoedd meithrin yn tueddu i gynnwys llai na 10 aelod. Roedd dros hanner y grwpiau a ymatebodd yn cyfarfod o leiaf unwaith bob wythnos.
- 9.6 Dywedodd y rhan fwyaf o'r grwpiau (59%) fod niferoedd eu grwpiau wedi bod yn sefydlog yn y ddwy flynedd cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth. Roedd 28% wedi cynyddu eu niferoedd, tra oedd 13% wedi lleihau o ran niferoedd. Grwpiau crefyddol a phapurau bro oedd fwyaf tebygol o fod wedi gweld gostyngiad yn eu niferoedd.
- 9.7 Dim ond 2% o'r grwpiau a ymatebodd a nododd eu bod wedi cynnal unrhyw weithgareddau ar-lein cyn diwedd mis Mawrth 2020. Mae hyn yn dangos cam mor

sylweddol oedd hi i rai o'r grwpiau hyn addasu eu gweithgareddau yn sgil y pandemig.

- 9.8 Cyn y pandemig, pobl rhwng 50 a 69 oed oedd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau grwpiau cymunedol, ac roedd menywod yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan na dynion. Roedd menywod yn llawer mwy tebygol o drefnu ymgyrchoedd codi arian, mynd ar dripiâu, gwirfoddoli yn y gymuned, ac roeddent ddwywaith yn fwy tebygol o fynychu grwpiau rhieni a phlant.

Gweithredu yn ystod y pandemig

- 9.9 Ar gyfer yr holl weithgareddau a gyflawnir gan grwpiau cymunedol, roedd y mwyafrif llethol (68%) ohonynt heb gael eu cynnal o gwbl ers dechrau'r cyfnod clo. Tripiâu, gwyliau, eisteddfodau, ymgyrchoedd codi arian, perfformiadau ac ymarferion cerddorol oedd y gweithgareddau oedd fwyaf tebygol o fod wedi peidio â digwydd.
- 9.10 Roedd 16% o'r gweithgareddau wedi'u haddasu i'w cynnal ar-lein ac roedd 5% o'r gweithgareddau wedi cael eu haddasu ond heb eu cynnal ar-lein. Gweithgareddau dysgu oedd y gweithgareddau mwyaf tebygol o fod wedi eu cynnal ar-lein (31% wedi gwneud hyn) tra mai gwirfoddoli yn y gymuned oedd fwyaf tebygol o gael ei addasu yn sgil y pandemig ond heb ddigwydd ar-lein (wedi digwydd yn yr awyr agored fel arfer).
- 9.11 Wrth feddwl am y grwpiau cymunedol yn eu cyfanrwydd, yn hytrach na'u gweithgareddau, nid oedd dros 80% o'r grwpiau wedi gweithredu ers dechrau'r cyfnod clo. Drwy hyn, rydym yn golygu naill ai nad oeddent wedi cyfarfod fel grŵp, bod y grŵp wedi'i atal dros dro, mai 'dim ond cadw mewn cysylltiad' yr oeddent, neu eu bod wedi dod â'r grŵp i ben yn llwyr. Grwpiau cymunedol a oedd yn trefnu eisteddfodau neu wyliau, aelwydydd ac adrannau'r Urdd a grwpiau codi arian oedd fwyaf tebygol o beidio â gweithredu yn y cyfnod hwn.
- 9.12 Roedd y grwpiau cymunedol lle'r oedd y trefnwyr yn derbyn cyflog yn fwy tebygol o fod wedi llwyddo i weithredu na'r grwpiau a oedd yn dibynnu ar wirfoddolwyr.
- 9.13 Dywedodd chwarter y grwpiau eu bod wedi addasu eu gweithgareddau arferol i'w cynnal ar-lein. Roedd y rhan fwyaf o'r Mentrau Iaith a thua hanner y grwpiau dysgu, papurau bro a chlybiau Ffermwyr Ifanc hefyd wedi trefnu gweithgareddau ar-lein.

Profiadau'r grwpiau a barhaodd i weithredu

9.14 O'r 20% o'r grwpiau a ddywedodd eu bod wedi gallu gweithredu mewn rhyw ffordd ers dechrau'r cyfnod clo:

- Roedd llai na hanner (42%) wedi derbyn rhywfaint o gymorth neu gyngor allanol i'w helpu i drefnu eu gweithgareddau
- Ar y cyfan, roeddent yn teimlo eu bod yn llai effeithiol, yn cwrdd yn llai aml a bod llai o bobl wedi cymryd rhan yn eu gweithgareddau
- Er hyn, dywedodd 75% eu bod wedi cynnal rhai gweithgareddau llwyddiannus, a 30% nad oedd rhai o'u gweithgareddau yn llwyddiannus
- Nododd 45% fod eu gweithgareddau wedi denu rhai pobl newydd, yn ogystal â'u cyfranogwyr arferol

Profiadau'r grwpiau sydd heb weithredu

9.15 O'r 80% o grwpiau cymunedol nad oeddent wedi cwrdd neu nad oedd ond wedi cadw mewn cysylltiad ar ôl y cyfnod clo ar ddiwedd mis Mawrth 2020, dywedodd:

- 93% mai'r rheswm dros beidio â gweithredu oedd nad oedd yn ymarferol parhau o dan gyfyngiadau a rheoliadau Covid-19
- 28% fod eu haelodau'n teimlo ofnus neu ddim yn ddiogel
- 17% ei bod yn amhosibl addasu gweithgaredd eu grŵp
- 13% nad oedd gan yr aelodau sgiliau digidol a 9% fod diffyg sgiliau digidol gan y trefnwyr i gynnal y grŵp
- 13% nad oedd yr aelodau yn dymuno cwrdd ar-lein, a
- 9% fod diffyg darpariaeth (er enghraifft, band eang)/adnoddau

9.16 Grwpiau crefyddol a changhennau Merched y Wawr oedd fwyaf tebygol o roi 'rhesymau digidol' dros beidio â gallu gweithredu, a dim ond cyfran fach o gylchoedd meithrin, adrannau ac aelwydydd yr Urdd, clybiau chwaraeon, eisteddfodau a gwyliau a grwpiau perfformiad a roddodd resymau 'digidol' dros beidio â gweithredu.

9.17 Roedd gan aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc sgiliau digidol, ac eto, y grwpiau hyn oedd fwyaf tebygol o ddweud nad oedd eu haelodau 'eisiau' cyfarfod ar-lein.

9.18 Mentrau cymdeithasol/partneriaethau cymunedol, grwpiau crefyddol a changhennau Merched y Wawr oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu 'haelodau'n teimlo ofn neu'n anniogel' fel eu rheswm dros beidio â gweithredu. Aelwydydd ac adrannau'r Urdd, grwpiau rhiant a phlentyn a grwpiau ieuenctid a phlant oedd leiaf tebygol o nodi mai dyma oedd eu rheswm.

Barn am y dyfodol

- 9.19 Dywedodd 62% o'r grwpiau eu bod yn debygol o barhau pe bai'r rheolau am gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn. Y papurau bro, Mentrau Iaith a chynghorau cymuned oedd yn fwy tebygol o deimlo y gallent barhau, tra oedd clybiau am yr ardal, corau, grwpiau cymdeithasol a grwpiau perfformio yn llai hyderus am eu dyfodol.
- 9.20 Roedd 88% o'r grwpiau a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo bod eu grŵp yn debygol o fodoli mewn blwyddyn pe na bai'r rheolau yn bodoli. Roedd 7% o'r grwpiau yn teimlo ei bod yn annhebygol y byddai eu grŵp yn bodoli ymhén blwyddyn, hyd yn oed pe na bai'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol yn bodoli. Y grwpiau a oedd fwyaf ansicr o'u dyfodol oedd y grwpiau codi arian, y grwpiau dysgu a chlybiau ar gyfer yr ardal, lle'r oedd 19%, 18%, a 14% yn y drefn honno yn teimlo eu bod yn annhebygol o barhau hyd yn oed os nad oedd y rheolau ar gadw pellter cymdeithasol yn bodoli.
- 9.21 Pe na bai'r rheolau cadw pellter cymdeithasol yn bodoli mewn blwyddyn, dywedodd 45% y bydden nhw'n mabwysiadu ambell ffordd newydd o weithredu, ond ar y cyfan yn gweithredu fel yr oeddent. Dywedodd 31% y bydden nhw'n mynd yn ôl i weithredu yn union fel yr oeddent. Roedd Mentrau Iaith yn fwy tebygol nag unrhyw fath arall o grŵp i ddweud y bydden nhw'n mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithredu.
- 9.22 Nododd y grwpiau mai sicrhau diogelwch aelodau wrth ailagor oedd y prif beth a fyddai'n eu helpu fel grŵp i barhau a ffynnu yn y dyfodol. Dywedodd nifer o grwpiau hefyd y byddai cymorth i ddatblygu eu defnydd o offer technoleg gwybodaeth; cymorth i uwchsgilio eu haelodau i gael mynediad i weithgareddau ar-lein; cyllid ychwanegol neu gyllid parhaus, a chymorth i hysbysebu neu godi ymwybyddiaeth am eu grŵp yn eu helpu i barhau a ffynnu yn y dyfodol.

Atodiad A: Holiadur yr arolwg o effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg

Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar fywyd cymunedol ym mhobman. Pwrrpas yr arolwg hwn yw deall effaith y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil Covid-19 ar y grwpiau, sefydliadau a mudiadau hynny sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, neu sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ar lawr gwlad.

Mae'r holiadur hwn yn gofyn cwestiynau am eich grŵp cymunedol (sefydliad, mudiad, pwyllgor, clwb, aelwyd, neu gôr). Rydyn ni am ddarganfod sut mae'r cyfnod clo a ddechreuodd ddiwedd mis Mawrth 2020 a'r cyfyngiadau dilynol wedi effeithio arnoch chi, i ba raddau yr ydych chi wedi addasu eich gweithgareddau, a beth yw eich bwriadau ar gyfer y dyfodol.

Bydd eich atebion yn cael eu defnyddio i helpu Llywodraeth Cymru a'r Mentrau Iaith wybod beth sydd angen ei wneud i ddiogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y dyfodol. Ni fydd hi'n bosibl i'ch adnabod chi na'ch grŵp mewn unrhyw gyhoeddiad o'r canfyddiadau, oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd penodol i Lywodraeth Cymru neu eich Menter Iaith leol i wneud hynny.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am sut y caiff eich ymatebion eu prosesu, [cliciwch yma](#). Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar 03000 256682 neu anfonwch neges e-bost at: DatalaithGymraeg@llyw.cymru

Diolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Eich grŵp cymunedol

Os nad ydych chi'n dymuno i Lywodraeth Cymru neu eich Menter Iaith leol wybod eich bod wedi ymateb i'r arolwg hwn, mae croeso i chi adael y cwestiwn hwn yn wag.

1. Beth yw enw eich grŵp, pwyllgor, mudiad neu'ch sefydliad chi?

Rydyn ni'n gofyn y cwestiwn hwn er mwyn gallu monitro pa grwpiau sy'n ymateb i'r arolwg hwn. Bydd enw'r grŵp yn cael ei roi i'r Fenter Iaith ar gyfer eich ardal, fel eu bod yn gwybod i beidio â mynd ar eich ôl i gael eich ymateb i'r arolwg. Ni fydd enw eich grŵp yn cael ei gyhoeddi yn ein cyhoeddiadau, oni bai eich bod yn rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny.

Nodyn: ar gyfer gweddill yr holiadur, mae unrhyw gyfeiriad at 'eich **grŵp**' yn cyfeirio at eich ymateb cwestiwn hwn.

2. Ydy eich grŵp yn un sy'n cael ei gynnal gan Fenter Iaith, neu'n ymwneud â Menter Iaith?

- | | |
|----------------|--------------------------|
| Ydy | ☐ |
| Nac ydy | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

3. Pa fath o grŵp, mudiad neu sefydliad ydych chi?

Menter Iaith	☐	Côr / Grŵp cerddoriaeth	☐
Clwb Ffermwyr Ifanc	☐	Clwb / Sefydliad crefyddol	☐
Aelwyd / Adran yr Urdd	☐	Clwb chwaraeon	☐
Cangen Merched y Wawr	☐	Clwb / Grŵp diddordeb	☐
Cylch Meithrin	☐	Grŵp / Dosbarth dysgu	☐
Papur Bro	☐	Clwb ieuenctid	☐
Clwb /grŵp codi arian	☐	Clwb llyfrau	☐
Eisteddfodau	☐	Cylch llenyddol	☐
Menter Gymdeithasol / Partneriaeth	☐	Grŵp / sefydliad arall (rhowch	☐
Clwb / Cymdeithas / Sefydliad am yr 'ardal'	☐		

4. Ym mha ardal y mae eich grŵp yn gweithredu?

Dewiswch bob ardal sy'n berthnasol

Ynys Môn	☐	Abertawe	☐
Gwynedd	☐	Castell-nedd Port Talbot	☐
Conwy	☐	Pen-y-bont ar Ogwr	☐
Sir Ddinbych	☐	Bro Morgannwg	☐
Sir y Fflint	☐	Caerdydd	☐
Wrecsam	☐	Rhondda Cynon Taf	☐
Gogledd Powys - ardal Maldwyn	☐	Merthyr Tudful	☐
De Powys - ardal Brycheiniog	☐	Caerffili	☐
Ceredigion	☐	Blaenau Gwent	☐
Sir Benfro	☐	Torfaen	☐
Gorllewin Sir Gaerfyrddin	☐	Sir Fynwy	☐
Sir Gaerfyrddin - ardal Bro Dinefwr	☐	Casnewydd	☐
Sir Gaerfyrddin - ardal Cwm Gwendraeth	☐	Arall (rhowch fanylion)	☐
Sir Gaerfyrddin - ardal Llanelli	☐		

Cyn y cyfnod clo (cyn mis Mawrth 2020)

5. Oedd eich grŵp yn bodoli cyn cyfnod clo Covid-19 ddiwedd mis Mawrth 2020?

Oedd	☐	➡	C6
Nac oedd	☐	➡	C33

6. A ydy eich grŵp yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr?

Ydy, gan wirfoddolwyr yn unig	☐	➡	C7
Rhai yn derbyn cyflog, rhai yn gwirfoddoli	☐	➡	C7
Pawb sy'n cynnal y grŵp yn derbyn cyflog	☐	➡	C9
Trefniant arall (rhowch fanylion isod)	☐	➡	C9

7. Faint o wirfoddolwyr sy'n helpu i gynnal eich grŵp?

8. Beth yw oedran cyffredinol y gwirfoddolwyr sy'n trefnu a chynnal eich grŵp?

Mae'n bosibl i chi ddewis mwy nag un blwch os yw'n anodd dewis un

- | | | | |
|----------|--------------------------|-------|--------------------------|
| O dan 18 | ☐ | 50-59 | ☐ |
| 18-24 | ☐ | 60-69 | ☐ |
| 25-29 | ☐ | 70+ | ☐ |
| 30-49 | ☐ | | |

(Menter Iaith –  c13)

9. Faint o bobl oedd yn rhan o'ch grŵp fel arfer?

- | | | | |
|----------|--------------------------|-------|--------------------------|
| O dan 10 | ☐ | 30-39 | ☐ |
| 10-19 | ☐ | 40+ | ☐ |
| 20-29 | ☐ | | |

10. Pa mor aml oeddech chi'n cwrdd fel arfer?

- | | | | |
|-----------------------------------|--------------------------|-------------------------------|--------------------------|
| Yn fwy aml nag unwaith yr wythnos | ☐ | Yn llai aml nag unwaith y mis | ☐ |
| Bob wythnos | ☐ | Ar sail ad-hoc | ☐ |
| Bob pythefnos | ☐ | Arall (rhowch fanylion isod) | ☐ |
| Bob mis | ☐ | <input type="text"/> | |

11. Yn ystod y ddwy flynedd cyn y cyfnod clo (cyn mis Mawrth 2020), sut fydddech chi'n disgrifio'r niferoedd a oedd yn mynychu eich grŵp?

- | | | | |
|--------------------------------------|--------------------------|---------------------------------------|--------------------------|
| Y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol | ☐ | Y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol | ☐ |
| Y niferoedd wedi cynyddu ychydig | ☐ | Y grŵp yn eithaf newydd | ☐ |
| Y niferoedd yn sefydlog | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
| Y niferoedd wedi gostwng ychydig | ☐ | | |

12. Ym mha iaith y mae'r grŵp yn gweithredu fel rheol?

- | | | |
|---|--------------------------|----------------------|
| Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | ☐ | <input type="text"/> |
| Yn Gymraeg yn bennaf | ☐ | |
| Yn Gymraeg ac yn Saesneg yn weddol gyfartal | ☐ | |
| Yn Saesneg yn bennaf | ☐ | |
| Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | ☐ | |
| Arall (rhowch fanylion) | ☐ | |

13. Beth oedd y prif weithgareddau yr oedd eich grŵp yn eu cynnal cyn y cyfnod clo (cyn mis Mawrth 2020)?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- | | | | |
|---|--------------------------|---|--------------------------|
| Trefnu achlysuron cymdeithasu (dan do)
(e.e. bore coffi, noson gwin a chaws, cwis tafarn, cinio, dawns) | ☐ | Trefnu tripiâu | ☐ |
| Trefnu achlysuron cymdeithasu (y tu allan)
(e.e. teithiau cerdded, helfa drysor) | ☐ | Cynnal gweithgareddau / cyfarfodydd crefyddol | ☐ |
| Cynnal grwpiau rhiant a phlentyn
(e.e. cylch meithrin, grŵp chwarae, grwpiau canu a dawnsio) | ☐ | Cynnal gweithgareddau / cyfarfodydd grŵp sy'n rhannu diddordeb
(e.e. grŵp llenyddol, clwb llyfrau, grŵp hanesyddol, clwb coginio, grŵp gwnïo, clwb celf a chrefft) | ☐ |
| Cynnal ymarferion cerddorol
(e.e. canu / côr / chwarae cerddoriaeth / ymarferion band) | ☐ | Cynhyrchu papur bro | ☐ |
| Cynnal ymarferion perfformio eraill
(e.e. grŵp ddrama/theatr, paratoi ar gyfer eisteddfodau/cyngherddau) | ☐ | Trefnu digwyddiadau / Cynnal perfformiadau
(e.e. dramâu, sioe theatr, pantomeim, noson gomedi cyngherddau, brethyn cartref, noson lawen, gig neu fand byw) | ☐ |
| Cynnal gweithgareddau dysgu
(e.e. dosbarthiadau, gwersi, gweithdai neu gyrsiau) | ☐ | Trefnu gwaith i wella'r ardal
(e.e. prosiectau amgylcheddol, gwaith adfywio/datblygu cymunedol, prosiectau datblygu economaidd) | ☐ |
| Cynnal gweithgareddau hamdden
(e.e. chwaraeon / cadw'n heini / cystadlaethau / dawnsio) | ☐ | Cynnal gweithgareddau ar-lein
(h.y. cyn y cyfnod clo) | ☐ |
| Trefnu gwyliau / eisteddfodau
(e.e. gwyl gelfyddydol, gwyl lenyddol, gwyl fwyd neu sioe amaethyddol) | ☐ | Ymgyrchoedd codi arian | ☐ |
| Gwirfoddoli i helpu eraill yn y gymuned | ☐ | Gweithgaredd arall (rhowch fanylion) | ☐ |

14. Pwy oedd yn dod i'r (pob ateb yng nghwestiwn 11 yn eu tro) fel arfer?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- | | | | |
|----------------------------------|--------------------------|----------------------------|--------------------------|
| Bechgyn/dynion | ☐ | Plant ysgol uwchradd 11-15 | ☐ |
| Merched/menywod | ☐ | Pobl ifanc 16- 24 | ☐ |
| Teuluoedd | ☐ | 25-29 | ☐ |
| Dysgwyr/siaradwyr newydd | ☐ | 30-49 | ☐ |
| Busnesau | ☐ | 50-59 | ☐ |
| Pobl sy'n byw mewn ardal benodol | ☐ | 60-69 | ☐ |
| Plant / babanod 0-4 oed | ☐ | 70+ | ☐ |
| Plant ysgol gynradd 5-11 | ☐ | | |

Y cyfnod clo a'r cyfyngiadau ers hynny

15. Ydych chi wedi {pob ateb cwestiwn 13 yn eu tro} ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020)?

- | | |
|--|--------------------------|
| Nac ydyn, heb wneud ers dechrau'r cyfnod clo | ☐ |
| Wedi atal y gweithgaredd ar ddechrau'r cyfnod clo, ond wedi ei ail ddechrau erbyn hyn | ☐ |
| Wedi addasu'r gweithgaredd i'w gynnal ar-lein | ☐ |
| Wedi addasu'r gweithgaredd i'w gynnal ar-lein ar ddechrau'r cyfnod clo, ond wedi ail ddechrau'r gweithgaredd yn ein dull arferol erbyn hyn | ☐ |
| Wedi addasu'r gweithgaredd, yn sgil Covid-19 ond heb fod ar-lein | ☐ |
| Wedi cynnal y gweithgaredd fel arfer | ☐ |
| Arall (rhowch fanylion) | ☐ |

16. Gan feddwl am eich grŵp yn ei gyfanrwydd, sut mae eich grŵp wedi gweithredu ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020)?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- | | | | |
|---|--------------------------|---|-----|
| Heb gyfarfod / grŵp wedi'i atal dros dro | ☐ | → | C27 |
| Wedi cadw mewn cysylltiad â'r grŵp yn unig
(e.e. cyfryngau cymdeithasol / e-byst / ffôn) | ☐ | → | C27 |
| Wedi addasu trefniadau/gweithgareddau arferol i fod ar-lein | ☐ | → | C17 |
| Wedi addasu trefniadau/gweithgareddau arferol, ond heb fod ar-lein | ☐ | → | C17 |
| Wedi cynnal gweithgareddau newydd ar-lein | ☐ | → | C17 |
| Wedi cynnal gweithgareddau newydd, heb fod ar-lein | ☐ | → | C17 |
| Nid yw'r cyfnod clo a'r cyfyngiadau wedi effeithio ar y grŵp | ☐ | → | C17 |
| Y grŵp wedi'i atal ar y dechrau ond wedi ailgydio erbyn hyn | ☐ | → | C27 |
| Rydyn ni wedi dod â'r grŵp i ben | ☐ | → | C25 |
| Arall | ☐ | → | C17 |

Disgrifiwch yn fras sut mae'r grŵp wedi cael ei effeithio ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020).

17. A gafodd eich grŵp unrhyw gymorth neu gyngor allanol i'w helpu i gynnal ei weithgareddau?

- | | |
|----------------|--------------------------|
| Do | ☐ |
| Naddo | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

Os do, pa gymorth a gawsoch, a gan bwy?

18. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol oedd gweithgarwch eich grŵp yn ystod y cyfnod hwn (ers diwedd mis Mawrth 2020)?

- | | |
|-------------------------------|--------------------------|
| Yn fwy effeithiol nag arfer | ☐ |
| Yr un mor effeithiol ag arfer | ☐ |
| Ddim mor effeithiol ag arfer | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

Nodwch eich rhesymau dros eich ateb.

19. Yn eich barn chi, a gyflawnodd y grŵp unrhyw weithgareddau llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn (ers diwedd mis Mawrth 2020)?

- | | |
|----------------|--------------------------|
| Do | ☐ |
| Naddo | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

Os do, nodwch beth oedd eich prif lwyddiannau.

20. Wrth feddwl am y gweithgareddau y mae eich grŵp wedi eu cynnal ers diwedd mis Mawrth 2020, a oes unrhyw beth sydd heb fod yn llwyddiant?

- | | |
|----------------|--------------------------|
| Oes | ☐ |
| Nac oes | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

Os oes, nodwch y manylion isod i esbonio.

21. Ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020), a ydy eich grŵp wedi 'cwrdd' neu drefnu gweithgareddau'r grŵp yn fwy neu'n llai aml nag yr oedd yn gwneud cyn y cyfnod clo?

- | | |
|------------------------|--------------------------|
| Yn fwy aml | ☐ |
| Yr un mor aml ag arfer | ☐ |
| Yn llai aml | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

22. Ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020), a oes mwy neu lai o bobl wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp nag yr oedd yn gwneud cyn y cyfnod clo?

- | | |
|----------------------|--------------------------|
| Mwy o bobl | ☐ |
| Yr un nifer ag arfer | ☐ |
| Llai o bobl | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

23. Ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020), ydy iaith gweithredu'r grŵp wedi newid?

- | | |
|---|--------------------------|
| Ydy, rydym yn defnyddio mwy o Gymraeg | ☐ |
| Nac ydy, rydym yn defnyddio'r un faint o Gymraeg ag arfer | ☐ |
| Ydy, rydym yn defnyddio llai o Gymraeg | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

24. Sut fuasech chi'n disgrifio'r bobl sydd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau eich grŵp ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020)?

- | | | | |
|---|--------------------------|---|-----|
| Ar y cyfan, y bobl sydd fel arfer yn cymryd rhan ydyn nhw | ☐ | → | C28 |
| Rhai sydd wedi cymryd rhan o'r blaen, a rhai newydd | ☐ | → | C28 |
| Ar y cyfan, pobl sydd heb gymryd rhan o'r blaen ydyn nhw | ☐ | → | C28 |
| Ddim yn gwybod | ☐ | → | C28 |

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

25. Beth oedd y rheswm dros atal y grŵp?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- | | |
|--|--------------------------|
| Ddim yn ymarferol i barhau o dan gyfyngiadau a rheoliadau Covid-19 | ☐ |
| Diffyg sgiliau digidol i gynnal y grŵp | ☐ |
| Diffyg sgiliau digidol gan yr aelodau i barhau | ☐ |
| Diffyg darpariaeth (e.e. band eang) / adnoddau | ☐ |
| Aelodau yn ofni neu ddim yn teimlo'n ddiogel | ☐ |
| Amhosibl addasu gweithgarwch y grŵp | ☐ |
| Diffyg gwirfoddolwyr | ☐ |
| Aelodau ddim yn dymuno cwrdd ar-lein | ☐ |
| Niferoedd wedi disgyn | ☐ |
| Arall | ☐ |

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

26. Beth, yn eich barn chi, a allai fod wedi eich helpu chi fel grŵp i barhau?

Ewch i → C37

27. Beth oedd y rheswm na wnaethoch chi gario ymlaen i weithredu mewn rhyw ffordd wedi i'r cyfnod clo ddechrau?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- | | |
|--|--------------------------|
| Ddim yn ymarferol i barhau o dan gyfyngiadau a rheoliadau Covid-19 | ☐ |
| Diffyg sgiliau digidol i gynnal y grŵp | ☐ |
| Diffyg sgiliau digidol gan yr aelodau i barhau | ☐ |
| Diffyg darpariaeth (e.e. band eang) / adnoddau | ☐ |
| Aelodau yn ofni neu ddim yn teimlo'n ddiogel | ☐ |
| Amhosibl addasu gweithgarwch y grŵp | ☐ |
| Diffyg gwirfoddolwyr | ☐ |
| Aelodau ddim yn dymuno cwrdd ar-lein | ☐ |
| Niferoedd wedi disgyn | ☐ |
| Arall | ☐ |

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

Y dyfodol

28. Yn eich barn chi, pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, pa mor debygol yw hi y bydd eich grŵp yn parhau?

- | | | | |
|-------------------|--------------------------|---|-----|
| Tebygol iawn | ☐ |  | C30 |
| Eithaf tebygol | ☐ |  | C30 |
| Eithaf annhebygol | ☐ |  | C29 |
| Annhebygol iawn | ☐ |  | C29 |
| Ddim yn gwybod | ☐ |  | C29 |

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

29. Yn eich barn chi, pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, pa mor debygol yw hi y bydd eich grŵp yn parhau?

- | | | | |
|---------------|--------------------------|---|-----|
| Tebygol i | ☐ |  | C30 |
| Eithaf teb | ☐ |  | C30 |
| Eithaf annheb | ☐ |  | C30 |
| Annhebygol i | ☐ |  | C31 |
| Ddim yn gwy | ☐ |  | C30 |

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

30. Yn eich barn chi, pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, sut fydddech chi'n disgwyl i'ch grŵp weithredu?

- | | |
|--|--------------------------|
| Mynd yn ôl i weithredu yn union fel yr oeddem | ☐ |
| Mabwysiadu ambell ffordd newydd o weithredu, ond ar y cyfan yn parhau fel yr | ☐ |
| Mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithredu | ☐ |
| Newid ein ffordd o weithredu yn gyfan gwbl | ☐ |
| Anodd dweud /ansicr | ☐ |

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

31. Beth yn eich barn chi a allai eich helpu chi fel grŵp i barhau a ffynnu yn y dyfodol?

32. A ydych chi fel grŵp wedi dysgu unrhyw wersi ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020), a fyddai'n eich rhoi mewn gwell sefyllfa i ymateb pe bai cyfnod clo arall yn y dyfodol?

- | | |
|----------------|--------------------------|
| Ydyn | ☐ |
| Nac ydyn | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

Os, ydych, pa wersi oedd y rheini?

Ewch i ➡ C37

Y grwpiau newydd

33. Disgrifiwch yn fras sut mae'r grŵp wedi gweithredu ers dechrau'r cyfnod clo (ddiwedd mis Mawrth 2020).

34. Yn eich barn chi, pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, pa mor debygol yw hi y bydd eich grŵp yn parhau?

- Tebygol iawn ☐
- Eithaf tebygol ☐
- Eithaf annhebygol ☐
- Annhebygol iawn ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Rhowch fanylion pellach i esbonio eich ateb.

35. Yn eich barn chi, pe na bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, sut fydddech chi'n disgwyl i'ch grŵp weithredu?

36. Beth yn eich barn chi a allai eich helpu chi fel grŵp i barhau a ffynnu yn y dyfodol?

Eich Manylion

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am gysylltu â chi i drafod eich ymatebion yn fanylach, neu i gynnal ymchwil bellach am y grwpiau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Os nad ydych chi am i ni gysylltu â'ch grŵp, cyflwynwch eich ymatebion heb roi eich manylion cyswllt.

37. Pa fanylion cyswllt a ddylid eu defnyddio i gysylltu â'r grŵp hwn?

Enw cyswllt:

E-bost:

Rhif ffôn:

Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach neu gwestiynau am yr arolwg hwn, cysylltwch â:

DatalaithGymraeg@llyw.cymru